



Swyddfa Gartref

Cyfarwyddyd Cyllido i awdurdodau lleol i gefnogi'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan a'r Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid

Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) a'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) ynghyd â Gwladolion Prydeinig cymwys

CYMORTH INTEGREIDDIO

Blwyddyn Ariannol 2022-2023

**Gweithrediadau Adsefydlu
Lunar House
Croydon
CR9 2BY**

Dyddiad cyhoeddi 28 Gorffennaf 2022

Fersiwn 1.0



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:

Afghanschemepayments@homeoffice.gov.uk

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	4
Telerau Ac Amodau Cyllid	6
1. Diffiniadau	6
2. Y Cyfarwyddiad Hwn	9
3. Cwmpas	10
4. Hyd	11
5. Tryloywder, Cyfrinachedd, Diogelu Data A Rhannu Data	12
6. Cyllid	13
Gwariant Cymwys	13
Gordaliadau	14
Terfynu Cyllid	14
Costau Eithriadol	15
Costau Cymorth Tai Ychwanegol	15
Cyffredinol	16
7. Cysoni Data A Thaliadau	16
8. Monitro A Gwerthuso	18
9. Torri Amodau Cyllido	18
10. Gweithgareddau – Cyffredinol	19
Is-gontractio	19
Oriau Gweithredu	19
Cwynion	19
Safonau Staff	19
11. Atebolrwydd	21
12. Datrys Anghydfodau	21
13. Manylion Cyswllt	21
Atodlen 1: Cymorth Adsefydlu Ar Ôl Cyrraedd	23
1. Rhan 1 – Datganiad O'r Canlyniadau Blwyddyn 1	23
Darpariaeth llety	23
Trefniadau Derbyn Cychwynnol	24
Cymorth Gwaith Achos	24
Gofynion ar gyfer Buddiolwyr ag anghenion arbennig/anghenion gofal cymunedol a aseswyd	25

Darpariaeth Addysg i'r rhai dan 18 oed	26
Darpariaeth Iaith Saesneg i Fuddiolwyr sy'n Oedolion	26
Proses Gyllido a Hawliadau	28
2. Rhan 2 – Datganiad O'r Canlyniadau Blwyddyn 2 I 3	29
Cyllid Blwyddyn 2 – 3	29
Proses Gyllido a Hawliadau	30
3. Rhan 3 – Datganiad O Ganlyniadau Ar Gyfer Derbynwyr Mewn Perthynas Â Nawdd Cymunedol Ar Gyfer Buddiolwyr Acrs Yn Unig	32
Ad-dalu Costau Addysg	32
Ad-dalu ar gyfer Costau Cymorth eraill yn ystod Blynnyddoedd 1 a 2	32
Cyllid ar gyfer Blwyddyn 3	33
4. Rhan 4 – Mynediad I Esol: Datganiad O Ganlyniadau Ar Gyfer Cyllid Ychwanegol I Gefnogi Darpariaeth Saesneg I Fuddiolwyr Sy'n Oedolion	34
Cynyddu Mynediad at Hyfforddiant Iaith	34
Ffactorau Llwyddiant Allweddol	34
Proses Gyllido a Hawliadau	34
5. Rhan 5 – Mynediad I Esol: Datganiad O'r Canlyniadau Ar Gyfer Cymorth Gofal Plant	36
Canlyniadau	36
Cyllido a Hawliadau	36
Ffactorau Llwyddiant Allweddol	37
6. Rhan 6 –Mynediad Nawdd Cymunedol I Gyllid	38
Ad-dalu am Gyllid Ychwanegol i Gefnogi Darpariaeth Iaith Saesneg i Fuddiolwyr sy'n Oedolion o dan Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)	38
Atodiad A – Profforma Hawlio Gwariant	39
Atodiad C – Protocol Rhannu Data (Dsp)	43
Atodiad D – Addasiadau Eiddo Ar Gyfer Buddiolwyr	50
Atodiad E – Costau Gwag Ar Gyfer *Eiddo Pedair Ystafell Wely	52
Atodiad F – Canllaw I Hawlio Costau Eithriadol	53
Atodiad G – Canllaw I Hawlio Costau Cymorth Tai Ychwanegol	56
Atodiad H – Rhestrau Wirio Ar Gyfer Hawliadau Costau Cymorth Tai Ychwanegol	62
Atodiad I - Cofnod O Newidiadau I'r Cyfarwyddyd Cyllido Hwn (I'r Fersiwn Flaenorol A Gyhoeddwyd)	71

Telerau Ac Amodau Cyllid

1. Diffiniadau

- 1.1. Mae “**Oedolyn**” at ddiben y ddarpariaeth Saesneg yn golygu Buddiolwr sy’n 19 oed neu’n hŷn, neu sy’n troi’n 19 oed o fewn y deuddeg (12) Mis cyntaf ar ôl cyrraedd y DU.
- 1.2. Mae “**Atodiad**” yn golygu'r atodiadau sydd ynghlwm wrth y Cyfarwyddyd Cyllido hwn.
- 1.3. Mae'r “**Awdurdod**” yn golygu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref sy’n gweithredu drwy'r Gweithrediadau Adsefydlu ar ran y Goron.
- 1.4. Mae “**Buddiolwr**” yn golygu: (i) y rhai a adsefydlir o dan y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) a'u dibynyddion uniongyrchol (gan gynnwys aelodau teulu Gwladolion Prydeinig) o dan Lwybr 1; a (ii) y rhai sydd wedi'u hadleoli o dan gynllun y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganïaid (ARAP) a'u dibynyddion uniongyrchol; a (iii) Gwladolion Prydeinig cymwys, (iv) yn ogystal mae'r ACRS wedi'i ehangu i gynnwys y rhai sydd wedi'u cydnabod yn Ffoaduriaid gan UNHCR a'u hadsefydlu i'r DU o dan Lwybr 2 ACRS, a (v) y rhai sydd wedi'u hadleoli o dan Lwybr 3 ACRS.

Diffinnir buddiolwr fel pob oedolyn, plentyn a babi sy'n cyrraedd y DU.

- 1.5. Ystyr “**Gwladolyn Prydeinig**” yw person sy’n dal un o'r chwe math o genedligrwydd Prydeinig. Nodir y chwe math yma: <https://www.gov.uk/types-of-british-nationality>.
- 1.6. Mae “**Achos o Ddiddordeb**” yn golygu bod Buddiolwr:
 - Wedi cael ei arestio am drosedd yn ymwneud â thrais; arfau; terfysgaeth/eithafiaeth; troseddau rhywiol (troseddoldeb).
 - Wedi bod yn destun trosedd casineb (troseddau casineb).
 - Wedi cael atgyfeiriad PREVENT yn eu cylch (atgyfeiriad PREVENT)
 - Wedi dioddef effaith negyddol ddifrifol (neu ganfyddiad eu bod wedi oherwydd gweithred neu hepgoriad gan y Swyddfa Gartref a/neu awdurdodau lleol/partneriaid cyflawni (methiant canfyddedig).
 - Wedi bod yn rhan o unrhyw ddigwyddiad arall y mae'r cyfryngau'n ymwybodol ohono (sylw posibl yn y cyfryngau).
- 1.7. Mae “**Noddwr Cymunedol**” (neu “**Noddwr**”) yn golygu grŵp neu sefydliad sydd:
 - 1.7.1. yn bodoli ac yn gweithio er budd y gymuned yn hytrach na chyfranddalwyr preifat, ac
 - 1.7.2. wedi'i gofrestru naill ai fel elusen (neu o 2013 ymlaen fel Sefydliad Elusennol Corfforedig), neu sy'n gwmni buddiant cymunedol, neu'n unigolyn neu'n gorff sy'n dod o fewn Adran 10(2)(a) o Ddeddf Elusennau 2011, ac
 - 1.7.3. wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod i gefnogi'r rhai a adsefydlir i'r DU o dan yr ACRS neu Gynllun Adsefydlu'r DU (UKRS), a
 - 1.7.4. sy'n gallu hawlio Cyllid i gefnogi Darpariaeth Iaith Saesneg i Fuddiolwyr sy'n Oedolion a adsefydlir o dan yr ACRS fel yn Atodlen 1 Rhan 6 a Chostau Gwag yn **Atodiad D**.

- 1.8. Mae “**Cymal**” yn golygu'r cymalau yn y Cyfarwyddyd Cyllido hwn.
- 1.9. Mae'r “**Cynllun Nawdd Cymunedol**” yn golygu'r rhaglen a ddatblygwyd gan yr Awdurdod i alluogi Noddwr Cymunedol i gefnogi'r rhai sydd wedi adsefydlu i'r DU o dan yr ACRS neu'r UKRS am gyfnod o bedwar ar hugain (24) Mis yn dilyn dechrau eu cymorth gan Noddwr Cymunedol.
- 1.10. Mae “**Ffactorau Llwyddiant Allweddol**” yn golygu'r dangosyddion sydd eu hangen i asesu llwyddiant y Cyllid yn erbyn ei ganlyniad arfaethedig.
- 1.11. Mae “**Deddfwriaeth Diogelu Data**” yn golygu (i) y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (“UKGDPR”) gan gynnwys y Gyfarwydddeb Gorfodi'r Gyfraith ac unrhyw Ddeddfau gweithredu cymwys fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, (ii) Deddf Diogelu Data 2018 (“DPA 2018”) i'r graddau y mae'n ymwneud â phrosesu Data Personol a phreifatrwydd, a (iii) yr holl Ddeddfau perthnasol ynghylch prosesu Data Personol a phreifatrwydd.
- 1.12. Mae'r “**Protocol Rhannu Data**” (neu'r “**DSP**”) yn golygu'r set o egwyddorion y manylir arnynt yn **Atodiad B** sy'n llywodraethu'r prosesau a'r agweddau ymarferol ar rannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod a'r Derbynnnydd, ac y mae'r Derbynnnydd yn cytuno i gadw atynt a chydymffurfio â nhw.
- 1.13. Mae “**Diwrnod**” yn golygu unrhyw ddiwrnod calendr o ddydd Llun i ddydd Sul (yn gynnwysedig).
- 1.14. Mae “**Partner Cyflenwi**” yn golygu unrhyw Drydydd Parti, boed yn sefydliad neu'n unigolyn sy'n gweithio gyda'r Derbynnnydd, p'un ai'n derbyn tâl ai peidio, wrth gyflwyno'r Cyfarwyddyd Cyllido hwn ar gyfer darparu'r Diben.
- 1.15. Mae “**Gwariant Cymwys**” yn golygu'r holl gostau, treuliau, atebolrwyddau, a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â, a dynnir gan, neu sy'n codi o gyflawni, gweithgareddau, a gweithrediadau'r Diben gan y Derbynnnydd yn ystod y cyfnod cyllido 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 ac sy'n cydymffurfio ym mhob ffordd â'r rheolau cymhwysedd a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn fel y'u pennir gan yr Awdurdod yn ôl ei ddisgresiwn llwyr.
- 1.16. “**Gwladolion Prydeinig cymwys**” yw'r rhai sydd:
- a) wedi cael eu gwacáu o Affganistan gan fyddin y DU, gwledydd NATO eraill neu wladwriaeth ranbarthol yn ystod Ymgyrch PITTING
- NEU**
- b) wedi cael eu cynorthwyo gan LIEM i adael Affganistan ar ôl Ymgyrch PITTING, gyda'r cymorth hwn yn dechrau cyn 6 Ionawr 2022.
- [At ddiben y cyfarwyddyd cyllido hwn, mae cymorth yn golygu bod cymhwysedd wedi'i sefydlu gan yr FCDO i'w gynnwys yn hediadau siarter Llywodraeth Qatar o Kabul i Doha; neu gymorth FCDO i alluogi hwyluso ffiniau cyfreithiol o Affganistan i drydedd wlad (fel cyflwyno Nodyn Verbales i lywodraethau cynnal i ofyn am ganiatâd i ddinasyddion Prydeinig groesi eu ffiniau).]*
- AC**
- c) wedi mynd i lety pontio **NEU** wedi'u cyflwyno'n ddigartref i gyngor.
- 1.17. Mae “**ESOL**” yn golygu ‘Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill’ ffurfiol, neu gymorth sgil iaith ffurfiol arall cyfatebol.
- 1.18. Mae “**Costau Eithriadol**” yn golygu treuliau ychwanegol a dynnir gan Dderbynnnydd wrth gefnogi Buddiolwr y mae gan yr Awdurdod gyllideb ar ei gyfer ac y gall, ar sail achos wrth achos, gytuno i'w had-dalu.

- 1.19. Mae “**Ardal Rhannu Ffeiliau**” (neu'r “**FSA**”) yn golygu'r ardal ddynodedig o fewn MOVEit lle gall Derbynnnydd gyrchu ffeiliau y mae'r Awdurdod wedi'u darparu i'w rhannu.
- 1.20. Mae “**Hyfforddiant Iaith Ffurfiol**” yn golygu darparu ESOL a ddylai, lle bo modd, arwain at Fuddiolwyr yn ennill cymwysterau achrededig gan ddarparwr a reoleiddir gan gorff cenedlaethol priodol (h.y. OFQAL, SQA neu Cymwysterau Cymru). Mae hyn hefyd yn cynnwys cyrsiau nad ydynt eu hunain yn arwain at gymhwyster achrededig, ond sy'n helpu Buddiolwyr i gael mynediad yn ddiweddarach at gwrs sy'n arwain at gymhwyster achrededig. Er enghraifft, darpariaeth heb ei rheoleiddio a gynigir gan ddarparwyr ar lefel cyn mynediad, lle nad oes unrhyw gymwysterau achrededig. Rhaid i bob hyfforddiant iaith ffurfiol fodloni'r nodweddion allweddol dilynol:
- 1.20.1. Arweinir eu cyflwyniad gan diwtoriaid cymwys, a
- 1.20.2. Maent yn briodol i alluoedd Buddiolwyr unigol fel y'u nodir yn dilyn asesiad diagnostig dan arweiniad tiwtor ESOL cymwys, a
- 1.20.3. Maent yn dilyn cwricwla cytunedig.¹
- 1.21. Mae'r “**Cyfarwyddyd Cyllido**” (neu'r “**Cyfarwyddyd**”) yn golygu'r ddogfen hon sy'n disgrifio'r amodau y gall Derbynnnydd hawlio Cyllid oddi tanynt.
- 1.22. Mae “**Cyllid**” yn golygu cyfraniadau ariannol yr Awdurdod tuag at Wariant Cymwys Derbynnnydd a dynnir i gefnogi Buddiolwyr am hyd at dri deg chwech (36) Mis ar ôl iddynt gyrraedd ardal awdurdod lleol a chychwyn y ddarpariaeth o dai a chymorth ac yn unol â'r telerau a chanlyniadau'r Cyfarwyddyd hwn.
- 1.23. Mae “**Hyfforddiant Iaith Anffurfiol**” yn golygu darpariaeth hyfforddiant iaith nad oes ganddi unrhyw un neu bob un o'r nodweddion a ddisgrifir yn 1.18, er enghraifft, gall ddigwydd mewn unrhyw leoliad, efallai y bydd ganddo gwricwlwm wedi'i osod ymlaen llaw neu efallai na fydd ganddo, ac fe'i darperir fel arfer mewn mewn ffordd strwythuredig neu led-strwythuredig, a ddarperir gan amrywiaeth o bobl gan gynnwys gwirfoddolwyr. Gall gynnwys magu hyder, dinasyddiaeth weithgar a lluo o weithgareddau hamdden neu gymunedol.
- 1.24. Mae “**Deddfau Gwybodaeth**” yn golygu Deddfwriaeth Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“FOIA”) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (“EIR”) sydd mewn grym, ac unrhyw Ddeddfau gweithredu cymwys fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.
- 1.25. Mae “**Ysgrifenedig**” yn golygu dulliau o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau mewn ffurf weladwy gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ohebiaeth bapur, e-bost, arddangos ar sgrin a throsglwyddo electronig.
- 1.26. Mae “**Deddf**” yn golygu unrhyw ddeddf, statud, is-ddeddf, rheoliad, gorchymyn, polisi rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, dyfarniad llys barn perthnasol, neu gyfarwyddebau neu ofynion unrhyw gorff rheoleiddio, deddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol.
- 1.27. Mae “**Mis**” yn golygu mis calendr.
- 1.28. Mae “**MOVEit**” yn golygu gwasanaeth rhannu ffeiliau dwy ffordd ar-lein yr Awdurdod sy'n caniatáu rhannu data Swyddogol a Swyddogol Sensitif (IL2)

¹ Byddwchystal â chyfeirio at [y Porth Rhagoriaeth](#) am wybodaeth pellach ynglŷn â chwricwlwm cenedlaethol ESOL a'r cwricwlwm Sgiliau Bywyd

ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol a sefydliadau allanol, mewn amgylchedd cwbl ddiogel. Mae ffeiliau gan gynnwys PDFs, pob math o ddogfennau Office, delweddau a WinZip hyd at 2GB mewn maint yn gallu cael eu rhannu.

- 1.29. Mae “**Gordaliad**” yn golygu Cyllid a delir gan yr Awdurdod i'r Derbynnnydd sy'n fwy na'r swm sy'n ddyledus mewn gwirionedd.
- 1.30. Mae gan “**Data Personol**” yr ystyr a roddir iddo yn Neddfwriaeth Diogelu Data'r DU.
- 1.31. Mae “**Derbynnnydd**” yn golygu awdurdod lleol neu ranbarthol sy'n cymryd rhan y mae'r Awdurdod wedi cytuno i ddarparu Cyllid iddo o dan y Cyfarwyddyd hwn fel cyfraniad tuag at wariant cymwys sy'n cefnogi Buddiolwyr.
- 1.32. Mae “**Ffoadur**” yn golygu person cymwys sydd, waeth beth fo'i genedligrwydd:
 - 1.32.1 wedi cael ei dderbyn fel un sydd mewn angen gan yr Awdurdod yn dilyn atgyfeiriad gan Uchel Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR), ac
 - 1.32.2 wedi cyrraedd y DU ar ôl cael ei dderbyn i'r Cynlluniau,
 - 1.32.3 ac wedi cael ei adsefydlu yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.
- 1.33. Mae “**Atodlen**” yn golygu'r Atodlenni sydd ynghlwm wrth y Cyfarwyddyd Cyllido hwn.
- 1.34. At ddibenion y Cyfarwyddyd Cyllido hwn, ystyr “**Y Cynlluniau**”, yw'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) a'r Polisi Adleoli a Chymorth i Affganïaid (ARAP), ynghyd â Dinasyddion Prydeinig Cymwys.
- 1.35. Mae “**Staff**” yn golygu unrhyw berson a gyflogir neu a gyflogir dros dro gan y Derbynnnydd ac sy'n gweithredu mewn cysylltiad â gweithredu'r Cyfarwyddyd hwn gan gynnwys perchnogion, cyfarwyddwyr, aelodau, ymddiriedolwyr, cyflogeion, asiantau, cyflenwyr, gwirfoddolwyr, a Phartnerïaid Cyflenwi y y Derbynnnydd (a'u cyflogeion, asiantau, cyflenwyr a Phartnerïaid Cyflenwi) a ddefnyddir i gyflawni'r canlyniadau a gyllidir.
- 1.36. Mae “**SMP**” yn golygu Partneriaeth Ymfudo Strategol.
- 1.37. Mae “**Trydydd Parti**” yn golygu unrhyw barti boed yn berson neu'n sefydliad heblaw'r Awdurdod neu'r Derbynnnydd.
- 1.38. Mae “**Diwrnod Gwaith**” yn golygu unrhyw ddiwrnod o ddydd Llun i ddydd Gwener (yn gynwysedig) ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus cydnabyddedig yn y DU.

2. Y cyfarwyddiad hwn

- 2.1. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn cynnwys tair ar ddeg (13) o Erthyglau, un (1) Atodlen, a saith (7) Atodiad ac mae'n disodli unrhyw gyfarwyddiadau cyllido a gyhoeddwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod sy'n darparu cyfraniadau ariannol tuag at gostau Derbynnwyr a dynnwyd i gefnogi Buddiolwyr.
- 2.2. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn darparu Cyllid sy'n galluogi Derbynnnydd i gefnogi Buddiolwyr:

- 2.2.1. yn ystod y deuddeg (12) mis cyntaf ar ôl cyrraedd ardal y Derbynydd, gan gynnwys Costau Addysgol (BLWYDDYN 1) – Atodlen 1, Rhan 1,
 - 2.2.2. yn ystod y pedwar ar hugain (24) Mis dilynol (BLYNYDDOEDD 2 – 3) – Atodlen 1, Rhan 2,
 - 2.2.3. ar y Cynllun Nawdd Cymunedol (ar gyfer Buddiolwyr ACRS yn unig) – Atodlen 1, Rhan 3,
 - 2.2.4. i wella eu sgiliau iaith Saesneg er mwyn cynorthwyo ag integreiddio a gwella cyflogadwyedd – Atodlen 1, Rhan 4, ac
 - 2.2.5. ag anghenion gofal plant i fynychu Hyfforddiant Iaith Ffurfiol – Atodlen 1, Rhan 5.
- 2.3. Mae'r Cyfarwyddyd Cyllido hwn yn disodli unrhyw delerau ac amodau y cytunwyd arnynt yn flaenorol rhwng yr Awdurdod a'r Derbynydd/Derbynwyr i ddarparu cymorth i fuddiolwyr y Cynllun ARAP a gyhaeddodd o 22 Mehefin 2021 ymlaen.

3. Cwmpas

- 3.1. Gellir gwneud hawliadau dan y cyfarwyddyd hwn ar gyfer Buddiolwyr sydd wedi cyrraedd y DU o dan un o'r cynlluniau a nodir ym mharagraffau 3.1.1 a 3.12, ynghyd â Gwladolion Prydeinig Cymwys.
- 3.1.1. Y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), a fydd yn blaenoriaethu'r rhai sydd wedi cynorthwyo ymdrechion y DU yn Affganistan ac wedi sefyll dros werthoedd fel democratiaeth, hawliau menywod a rhyddid barn, rheolaeth y gyfraith; a phobl agored i niwed, gan gynnwys menywod a merched mewn perygl, ac aelodau o grwpiau lleiafrifol sydd mewn perygl. Bydd y cynllun hwn yn adsefydlu hyd at 20,000 o bobl mewn perygl. Bydd priodau,artneriaid, a phlant dibynnol dan 18 oed unigolion cymwys a nodwyd yn gymwys ar gyfer y cynllun. Gall aelodau eraill o'r teulu fod yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol. Gellir cynnig adsefydlu i blant ar eu pen eu hunain o dan yr ACRS os penderfynir bod adsefydlu i'r DU er eu lles gorau, a'u bod wedi'u nodi'n gymwys ar gyfer y cynllun. Bydd plant ar eu pen eu hunain sy'n cael eu hadsefydlu o dan ACRS (oni bai mewn amgylchiadau eithriadol) yn cael eu trin yn yr un modd â Phlant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC) at ddibenion cyllido, a bydd awdurdodau lleol sy'n derbyn plant ar eu pen eu hunain o dan y Cynllun yn cael eu had-dalu yn unol â Chyfarwyddyd Cyllido UASC y flwyddyn berthnasol, nid y Cyfarwyddyd hwn.
- 3.1.2. Mae'r Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP), a ddaeth yn fyw ar 1 Ebrill 2021, yn cynnig adleoli neu gymorth arall i'r rhai a wasanaethodd ochr yn ochr â'n lluoedd arfog yn Affganistan ac a roddodd gefnogaeth bwysig i genhadaeth amddiffyn a diogelwch Llywodraeth Ei Mawrhydi yno, yn bennaf y rhai sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol, neu mewn rhai achosion arbennig drwy gontractwyr, ac yr asesir eu bod mewn perygl difrifol o ganlyniad i waith o'r fath. Mae ar gael i bobl waeth beth fo'u rheng neu rôl, neu hyd yr amser a wasanaethwyd, ac mae'n adeiladu ar y cymorth hirsefydlog sydd

eisoes ar gael. Mae'r polisi'n darparu i'r prif ymgeisydd ddod ag aelodau agos o'u teulu (priod a phlant o dan 18 oed) i'r DU ac mae'n ehangu'n sylweddol y meini prawf cymhwysedd o'r cynllun blaenorol. Gall aelodau eraill o'r teulu fod yn gymwys mewn amgylchiadau eithriadol. **Dim ond ar gyfer Buddiolwyr a ddechreuodd gael cymorth gan Dderbynnydd ar neu ar ôl 22 Mehefin 2021 y gellir gwneud hawliadau o dan y cyfarwyddyd hwn.**

- 3.2. I gefnogi'r ymrwymadau hyn ymhellach, mae'r Cynllun Nawdd Cymunedol wedi'i ddatblygu gan alluogi Noddwyr, yn lle'r Derbynnnydd, i ddarparu cymorth cofleidiol cynhwysfawr i'r rhai sydd wedi'u hadsefydlu yn y DU o dan yr ACRS am gyfnod o ddwy (2) flynedd.
- 3.3. Mae'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (Llwybr 2) yn cael ei redeg mewn partneriaeth ag Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (Yr 'UNHCR'). Mae'n dangos cefnogaeth y DU i ymdrech fyd-eang yr UNHCR i leddfu'r argyfwng dyngarol drwy ddarparu cyfleoedd adsefydlu i bobl agored i niwed mewn cymunedau yn y DU sydd:
 - 3.3.1 wedi cofrestru gyda'r UNHCR; ac
 - 3.3.2 mae'r UNHCR yn ystyried eu bod yn bodloni un o'u categorïau cyflwyno adsefydlu²
- 3.4. Mae'r Derbynnnydd wedi gwneud ymrwymadau i gefnogi'r Cynlluniau, ac mae'r Awdurdod wedi cytuno i ddarparu Cyllid i'r Derbynnnydd fel cyfraniad at gefnogi Buddiolwyr am hyd at dair (3) blynedd ar ôl cyrraedd ardal y Derbynnnydd am y tro cyntaf fel y disgrifir ymhellach yn y Cyfarwyddyd hwn.
- 3.5. Oni nodir yn benodol fel arall, bydd unrhyw Gyllid yn ymwneud â chostau Derbynnnydd wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac unrhyw beth y cytunir arno fel arall gyda'r Awdurdod.
- 3.6. Gall cyllid fod ar gael i fuddiolwyr y mae dyletswyddau digartrefedd yn ddyledus iddynt o dan Ddeddf Tai 1996 ac sy'n cael eu hadsefydlu drwy'r cynllun wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny.
- 3.7. Bydd y Derbynnnydd yn rhydd i benderfynu'r ffordd orau i ddefnyddio'r Cyllid ond at ddibenion monitro a gwerthuso Cynlluniau rhaid iddo allu dangos bod y Cyllid wedi'i ymrwymo i gefnogi Buddiolwyr a hyrwyddo nodau'r Cynlluniau.

4. Hyd

- 4.1. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn nodi o dan ba delerau y bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod Cyllid ar gael i'r Derbynnnydd, mewn perthynas â gwariant a dynnir i gefnogi Buddiolwyr. Dim ond ar gyfer Buddiolwyr a ddechreuodd gael cymorth gan Dderbynnydd ar neu ar ôl 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 y gellir gwneud hawliadau o dan y cyfarwyddyd hwn.
- 4.2. Yn unol â pholisïau cyllido sefydledig Trysorlys EM, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi cyfarwyddyd newydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol y cymeradwyir Cyllid ar ei chyfer. Bydd hyn yn digwydd p'un a wneir unrhyw newidiadau ai peidio.

² Gweler Atodiad B

5. Tryloywder, Cyfrinachedd, Diogelu Data A Rhannu Data

- 5.1. Mae'r Derbynnnydd yn cydnabod y gall trefniadau cyllid grant a gyhoeddir gan adrannau'r llywodraeth gael eu cyhoeddi ar wefan gyhoeddus ac y bydd yr Awdurdod yn datgelu taliadau a wnaed yn erbyn y Cyfarwyddyd hwn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth y DU i effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- 5.2. Mae'r Derbynnnydd yn ymrwymo i gadw'n gyfrinachol ac i beidio â datgelu, ac i sicrhau bod ei staff yn cadw'n gyfrinachol ac nad yw'n datgelu unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd hwn.
- 5.3. Nid oes dim yn yr Erthygl 5 hon yn gymwys i wybodaeth sydd eisoes yn y parth cyhoeddus neu feddiant y Derbynnnydd ac eithrio oherwydd torri'r Erthygl 5 hon. Ymhellach, ni fydd yr Erthygl 5 hon yn gymwys i wybodaeth y mae'n ofynnol ei datgelu yn unol ag unrhyw ddeddf neu yn unol â gorchymyn unrhyw lys neu gorff statudol neu reoleiddiol.
- 5.4. Bydd y Derbynnnydd a'r Awdurdod yn cydymffurfio bob amser â'u rhwymedigaethau priodol o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU.
- 5.5. Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag unrhyw Fuddiolwr a ddatgelir iddo wrth gyflawni'r Cynlluniau hyn yn cael ei thrin yn gyfrinachol a dim ond yn unol â darpariaethau Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU y dylid ei datgelu i drydydd parti. Os bydd unrhyw amheuaeth yn codi, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod a bydd ei benderfyniad ar y mater yn derfynol. Yn benodol, bydd y Derbynnnydd yn:
 - 5.5.1. rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gydnabod a chynnal angen y Buddiolwr am gyfrinachedd; a
 - 5.5.2. sicrhau, heb ganiatâd Buddiolwr, nad yw manylion y Buddiolwr unigol hwnnw'n cael eu rhyddhau i unrhyw sefydliad nad yw'n rhan o'r Cyfarwyddyd hwn.
- 5.6. Ni fydd y Derbynnnydd yn defnyddio unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael o ganlyniad i gyflawni'r Cynlluniau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw Fuddiolwr) mewn unrhyw fodd sy'n anghywir neu'n gamarweiniol.
- 5.7. Ar ôl derbyn data personol gan yr Awdurdod, bydd y Derbynnnydd yn dod yn rheolydd annibynnol o'r data hwnnw yn yr ystyr y bydd y Derbynnnydd, wrth gyflawni'r Cynlluniau, ar unrhyw adeg yn pennu pwrpas a dull prosesu'r data personol. Wrth wneud hynny byddant yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data berthnasol mewn perthynas â phrosesu Data Personol o'r fath, yn gyfrifol yn unigol ac ar wahân am ei gydymffurfiaeth ei hun ac mewn perthynas â phrosesu Data Personol fel Rheolydd annibynnol, yn gweithredu ac yn cynnal mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau lefel o ddiogelwch sy'n briodol i'r risg honno, gan gynnwys, fel y bo'n briodol, y mesurau y cyfeirir atynt yn Erthygl 32(1)(a), (b), (c) a (d) o'r GDPR, a'r rhaid i fesurau, o leiaf, gydymffurfio â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys Erthygl 32 o'r GDPR.
- 5.8. Os bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig, mae'r Derbynnnydd yn gyfrifol am ddilyn ei drefniadau diogelu data lleol a chyfeirio unrhyw doriad data personol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr i nodi'r digwyddiad cychwynnol.

- 5.9. Os bydd unrhyw ddatgeliad anawdurdodedig rhaid hysbysu'r Awdurdod ar unwaith. Bydd yr Awdurdod yn penderfynu pa gamau adferol, os o gwbl, y dylid eu cymryd a bydd y Derbynnnydd yn rhwym i benderfyniad yr Awdurdod ac yn cadw ato.
- 5.10. Lle bo Derbynnnydd yn gyfrifol am ddatgeliad anawdurdodedig sy'n torri'r Cyfarwyddyd hwn, bydd y Derbynnnydd hwnnw'n atebol am unrhyw ganlyniadau o ddatgeliad anawdurdodedig o'r fath, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol.
- 5.11. Cyn gadael am y DU, bydd ffoaduriaid Llwybr 2 ACRS wedi llofnodi ffurflen ganiatâd yn cadarnhau eu parodrwydd i rannu data personol â chyrrff gweithredol a phartneriaid cyflawni perthnasol. Bydd yr Awdurdod yn cadw'r ffurflenni hyn ac yn caniatáu i'r Derbynnnydd eu harchwilio yn ôl y gofyn.
- 5.12. Mae'r Awdurdod hefyd yn disgwyl i'r Derbynnnydd rannu gwybodaeth berthnasol am gyflawniad y Cynlluniau ac am Fuddiolwyr gyda'i bartneriaid; cyn gwneud hynny, mae'n rhaid i'r Derbynnnydd sicrhau bod cytundeb ffurfiol wedi'i lofnodi gyda'r darparwyr perthnasol o'r Cynlluniau sy'n llifo i lawr telerau'r Protocol Rhannu Data.
- 5.13. Rhaid rhannu Ffurflen Gofrestru Adsefydlu UNHCR (RRF) neu unrhyw ddogfen gysylltiedig arall a grëir gan UNHCR am Fuddiolwr (ffoadur), dim ond ar sail angen gwybod.
- 5.14. Rhaid peidio â rhannu'r RRF a dogfennau cysylltiedig â'r ffoadur dan sylw, nac ag unrhyw barti arall y tu allan i'r partneriaid cyflawni priodol, heb gytundeb penodol swyddfa UNHCR yn Llundain.
- 5.15. Rhaid cyfeirio pob cyswllt a wneir gan unrhyw berson neu sefydliad nad yw'n rhan o'r Cyfarwyddyd hwn mewn perthynas â chyflawni i gyllido'r Cynlluniau at swyddfa wasg yr Awdurdod am gyngor a/neu gamau gweithredu.
- 5.16. Lle mae'n berthnasol, mae'n ofynnol i'r Derbynnnydd a'r Awdurdod gydymffurfio â'r Deddfau Gwybodaeth, unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed, ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
- 5.17. Mae'r Derbynnnydd yn cytuno i gynorthwyo a chydweithio â'r Awdurdod i alluogi'r Awdurdod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Deddfau Gwybodaeth pryd bynnag y gwneir cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r Cyfarwyddyd hwn neu sy'n codi ohono.
- 5.18. Ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu pe byddai datgeliad o'r fath yn torri amodau neu os yw wedi'i eithrio rhag cael ei datgelu o dan y Deddfau Gwybodaeth.
- 5.19. Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau ei fod ef, a'i Staff, yn cydymffurfio â phrotocolau rhannu data'r Awdurdod fel y disgrifir yn **Atodiad C**.
- 5.20. Bydd darpariaethau'r Erthygl 5 hon yn goroesi terfyniad y Cyfarwyddyd hwn, sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

6. Cyllid

Gwariant Cymwys

- 6.1. Ni ddylid defnyddio'r arian a ddarperir at unrhyw ddiben heblaw cyflawni canlyniadau'r Cynllun a nodir yn Atodlen 1 y Cyfarwyddyd hwn, ac ni

chaniateir trosglwyddo unrhyw arian o'r fath yn rhywle arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

- 6.2. Mae unrhyw faterion ariannu sy'n deillio o Fuddiolwr yn symud yn barhaol o awdurdod lleol cyfranogol yn ystod uchafswm tymor tri deg chwech (36) Mis y Cyllid i'w datrys rhwng y Derbynydd a'r awdurdod lleol perthnasol.
- 6.3. Ni chaiff unrhyw agwedd ar y gweithgarwch a gyllidir gan yr Awdurdod fod yn wleidyddol o ran bwriad, defnydd na chyflwyniad.
- 6.4. Ni cheir defnyddio'r Cyllid i gefnogi neu hyrwyddo gweithgarwch crefyddol. Ni fydd hyn yn cynnwys gweithgarwch a gynllunir i wella perthnasoedd rhyngffydd a/neu weithio.

Gordaliadau

- 6.5. Rhaid hysbysu'r Awdurdod cyn gynted â phosibl os yw Derbynydd yn disgwyl i'w ofynion Cyllido fod yn is na'r disgwyl, er mwyn osgoi Gordaliadau.
- 6.6. Os gwneir Gordaliad, sut bynnag y caiff ei achosi, rhaid hysbysu'r Awdurdod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr Awdurdod yn gofyn am ad-daliad ar unwaith o'r Gordaliad neu gall addasu taliad(au) dilynol yn unol â hynny.

Terfynu Cyllid

- 6.7. Bydd cyfrifoldeb yr Awdurdod am ddarparu Cyllid o dan y Cyfarwyddyd hwn yn dod i ben heb fod yn hwyrach na'r tri deg chwech (36) mis ers dechrau cymorth i Fuddiolwyr o dan y Cynlluniau ac nid oes modd hawlio Cyllid ar gyfer unrhyw gymorth a ddarperir y tu hwnt i'r pen-blwydd hwn.
- 6.8. Gall taliadau ddod i ben hefyd os bydd y Buddiolwr:
 - 6.8.1. yn marw,
 - 6.8.2. yn gadael ardal y Derbynydd i fyw mewn ardal awdurdod lleol arall yn y DU,
 - 6.8.3. yn nodi nad yw bellach yn dymuno cael cymorth o dan y Cynlluniau,
 - 6.8.4. yn nodi eu bod yn gadael y DU yn barhaol,
 - 6.8.5. yn gwneud cais am ryw statws Mewnfudo arall o fewn y DU, neu
 - 6.8.6. fel arall yn gadael neu'n dod yn anghymwys ar gyfer y Cynlluniau.
- 6.9. Os bydd unrhyw ddiwyddiad o'r fath o dan Gymal 6.8, rhaid i'r Derbynydd hysbysu'r Awdurdod yn ddi-oed.
- 6.10. At ddibenion Cymal 6.7, bydd y cyfnod tri deg chwech (36) Mis yn cychwyn ar y dyddiad y bydd y Buddiolwr yn cyrraedd gyda'r Derbynydd, a chychwyn y cymorth, a bydd yn parhau'n ddi-dor tan ddiwedd y cyfnod tri deg chwech Mis hwnnw (36).
- 6.11. Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i roi'r gorau i wneud taliadau drwy'r Cyfarwyddyd hwn os oes ganddo sail resymol i gredu bod y Buddiolwr wedi ceisio twyllo'r Awdurdod, y Derbynydd perthnasol, neu asiantaeth bartner mewn perthynas â'u hamgylchiadau, gan gynnwys eu cynnwys ar y Cynlluniau neu eu gweithgareddau tra'n cymryd rhan.

Costau Eithriadol

- 6.12. Gellir gwneud taliadau hefyd er mwyn talu costau hanfodol ychwanegol a dynnir gan y Derbynydd y tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol ei ystyried yn wariant arferol ac nad yw ar gael drwy fecanweithiau cyllido prif ffrwd eraill. Gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb Costau Eithriadol, ymhlith pethau eraill, i dalu am:
- Addasiadau Eiddo (gweler **Atodiad D**)
 - Costau Eiddo Gwag (gweler **Atodiad E**)
 - Cymorth i blant ag anghenion addysgol dynodedig
 - Darpariaeth Gofal Cymdeithasol
 - Ychwanegiad enwol Credyd Cynhwysol (**gweler Atodlen 1, Cymal 1.11**)
 - Costau Cymorth Tai Ychwanegol (**gweler Atodiad G**)
- 6.13. Cyn tynnu Costau Eithriadol, rhaid i Dderbynydd geisio cytundeb ysgrifenedig gan Dîm Taliadau Cynlluniau Affganistan yr Awdurdod neu beryglu i'r hawliad gael ei wrthod. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei farn resymol wrth asesu mesurau lliniaru ar gyfer hawliadau lle na fu hyn yn bosibl. **Gweler Atodiad F.**
- 6.14. Bydd pob cais yn cael ei asesu, a thaliadau yn cael eu gwneud, fesul achos:
- 6.14.1. Nid oes isafswm nac uchafswm y gellir ei hawlio.
- 6.14.2. Ni ellir hawlio Costau Eithriadol am gymorth a ddarperir i Fuddiolwr a fyddai fel arfer yn cael ei gyllido drwy gyllid ieched neu addysg y pen neu drwy daliadau lles.
- 6.14.3. Rhaid i dderbynwyr gyflwyno tystiolaeth o wariant Costau Eithriadol a dynnwyd (e.e. copi o anfonebau) ynghyd â ffurflen hawlio Costau Eithriadol, cyn y bydd hawliadau'n cael eu hystyried i'w talu.
- 6.15. Bydd yr Awdurdod yn adolygu gweithrediad y broses Costau Eithriadol a'r gyllideb o bryd i'w gilydd.

Costau Cymorth Tai Ychwanegol

- 6.16. Gellir gwneud taliadau hefyd er mwyn talu costau tai ychwanegol y mae'r Derbynydd wedi'u hysgwyddo o reidrwydd i gyllido llety i deuluoedd mwy sy'n cael eu hadsefydlu drwy'r Cynlluniau ARAP ac ACRS, yn ogystal â gwladolion Prydeinig cymwys a ddaeth i'r DU fel rhan o'r digwyddiad gwacáu. **Nid yw'r cyllid ar gael** i gartrefu teuluoedd ACRS sy'n cael eu hadsefydlu i'r DU ar ôl 31 Awst 2021 (h.y. nad oeddent yn rhan o'r digwyddiad gwacáu). Cymerwyd y penderfyniad hwn i sicrhau tegwch o ystyried mai cyfiawnhad polisi oedd y gwacáu torfol, er ein bod yn cadw hyn dan adolygiad.
- 6.17. Er y bydd cyfanswm y Cyllid ar gael am hyd at 3 blynedd o ddyddiad dechrau'r denantiaeth, mae'r rhan fwyaf o gyfanswm y Cyllid i'w ddyrannu yn 2021-22 (£15m) gyda chyfanswm y Cronfeydd yn cael eu lleihau yn 2022-23 (£7.5m) a 2023-24 (£3m). Yn ystod y cyfnod hwn disgwylir i Dderbynwyr gefnogi teuluoedd i ddod o hyd i waith gyda chyflog digonol i allu cyllido eu llety eu hunain.
- 6.18. Mae'n bosibl y bydd taliadau ar gael i dalu costau eithriadol mewn perthynas â:

- 6.18.1. Sicrhau eiddo mwy (3 ystafell wely neu fwy) am renti fforddiadwy o fewn y sector rhentu preifat trwy gynnig cyllid 'atodol' i dalu am unrhyw fwllch rhwng y Lwfans Tai Lleol (LHA) a rhent y farchnad ar gyfer eiddo. Gallai'r cyllid atodol gael ei dalu gan y Derbynnnydd fel cyfandaliad o'r cychwyn cyntaf i sicrhau eiddo a fydd wedyn yn cael ei osod am rent fforddiadwy am gyfnod y denantiaeth. Fel arall, gall y Derbynnnydd ddarparu cyllid atodol i gynorthwyo gyda'r rhent am gyfnod o amser nes bod y teulu'n dod o hyd i waith gyda chyflog digonol i ddileu hawl i Gredyd Cynhwysol.
- 6.18.2. Cwmpasu unrhyw ddiffygion mewn taliadau Credyd Cynhwysol sy'n effeithio ar allu teulu i dalu eu rhent. Efallai y bydd derbynwyr am sicrhau costau cymorth tai ychwanegol er mwyn sicrhau tenantiaethau i deuluoedd gan wybod y gellir talu costau rhentu, hyd at lefel LHA, pe byddai'r teulu'n destun y cap ar fudd-daliadau.
- 6.18.3. Gall costau tai eithriadol ychwanegol gael eu talu hefyd trwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r Awdurdod. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, costau ychwanegol i sicrhau eiddo llai o faint gyda chytundeb ymlaen llaw lle mae anghenion penodol na fyddent yn cael eu diwallu fel arall.
- 6.19. Gall derbynwyr wneud cais am Gyllid o dan fwy nag un o'r tri chategori uchod a nodir ar gyfer un aelwyd. Os yw Derbynnnydd yn gwneud cais am Gyllid o dan fwy nag un categori mewn perthynas ag aelwyd, rhaid i'r Derbynnnydd ddangos nad oes unrhyw ddyblygu.
- 6.20. Ar ôl ceisio adborth gan awdurdodau lleol, mae'r broses symlach ar gyfer gwirio cymhwysedd ar gyfer Cyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol wedi'i chynnwys yn Atodiad G.

Cyffredinol

- 6.21. Ni fydd yr Awdurdod yn ad-dalu gwariant anawdurdodedig sy'n uwch na'r lefelau Cyllido uchaf a nodir yn **Atodlen 1, 1.31**.
- 6.22. Ym mhob achos, dylai Cyllid a dderbynnir gael ei gronni a'i reoli ar draws yr holl Fuddiolwyr gyda chymorth y Derbynnnydd perthnasol.
- 6.23. Y Derbynnnydd perthnasol fydd y pwynt cyswllt sengl ar gyfer anfonebau a thaliadau.
- 6.24. Bydd unrhyw daliadau a wneir o dan y Cyfarwyddyd hwn hefyd yn cynnwys TAW neu dollau eraill a delir gan y Derbynnnydd i'r graddau na fydd y Derbynnnydd yn adennill y rhain fel arall.
- 6.25. Ni ddylid dehongli dim yn y Cyfarwyddyd hwn fel rhywbeth sy'n darparu neu'n caniatáu i gyfanswm y budd-daliadau perthnasol fynd dros y terfyn statudol (y 'cap budd-daliadau') sy'n bodoli ar adeg y taliad.

7. Cysoni data a thaliadau

- 7.1. Bydd y Derbynnnydd yn cwblhau ceisiadau am daliad ar y ffurf berthnasol a nodir yn Atodiad A, sy'n cynnwys manylion pob Buddiolwr a'r cymorth ariannol y gwneir cais amdano.
- 7.2. Mae cyfarwyddiadau penodol ar gyfer cwblhau Atodiad A wedi'u cynnwys yng ngweithlyfr Excel cyllido'r ALI, a ddarperir gan yr Awdurdod. Dim ond trwy borth trosglwyddo data diogel yr Awdurdod, "MOVEIT DMZ", y dylid

cyflwyno'r ffurflen yn Atodiad A er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data.

- 7.3. Gwneir taliadau o fewn tri deg (30) Diwrnod o dderbyn hawliad wedi'i gwblhau'n gywir.
- 7.4. Dylai'r Awdurdod dderbyn yr Atodiad A a gyflwynir i'w dalu heb fod yn hwyrach na thri (3) mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r cais yn ymwneud ag ef; gall dychwelyd yn hwyr arwain at oedi cyn talu. Bydd y Derbynnnydd yn cael cyfle i wneud sylwadau os yw'n credu bod lefel y Cyllid a dderbyniwyd yn llai na'r hyn y mae ganddo hawl iddo o dan delerau'r Cyfarwyddyd hwn. Rhaid i'r Derbynnnydd perthnasol hysbysu'r Tîm Taliadau Cynlluniau Affganistan am unrhyw anghysondebau ynghylch y symiau a dalwyd o fewn un (1) Mis o anfon ymateb Atodiad A, yn dilyn cysoni yn erbyn cofnodion yr Awdurdod.
- 7.5. Ar ddiwedd y cyfnod y telir cymorth ar ei gyfer, bydd gwiriadau terfynol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y taliadau a wnaed eisoes yn adlewyrchu'n gywir y symiau y mae gan y Derbynnnydd hawl iddynt. Mae taliadau a wneir o ganlyniad i geisiadau i'w hystyried yn daliadau ar gyfrif, a fydd yn cael eu cwblhau pan fydd y cais terfynol yn cael ei gadarnhau gan yr Awdurdod. Dylai'r Derbynnnydd nodi **na ddylid** newid fformat y taenlenni hawlio.
- 7.6. Lle mae Derbynnnydd yn credu bod lefel y Cyllid a dalwyd mewn gwirionedd gan yr Awdurdod yn llai na'r hyn y mae ganddo hawl iddo o dan delerau'r Cyfarwyddyd hwn, gall y Derbynnnydd gyflwyno sylwadau i Dîm Cyllido'r Awdurdod. Rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Taliadau Cynlluniau Affganistan am unrhyw anghysondebau o fewn un (1) Mis o wneud taliad. Ni ellir cytuno ar daliadau ôl-weithredol gan yr Awdurdod ar gyfer unigolion nad ydynt wedi'u cynnwys yn brydlon yn hawliad Atodiad A oni bai y gellir dangos amgylchiadau eithriadol.
- 7.7. Gwneir taliadau trwy BACS gan ddefnyddio manylion cyfrif y mae'n rhaid i'r Derbynnnydd eu rhoi i'r Awdurdod ar bapur pennawd, wedi'i lofnodi gan uwch swyddog cyllid. Mae'r Derbynnnydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Awdurdod wedi cael gwybod am ei fanylion cyfrif banc cywir ac unrhyw newidiadau dilynol. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Awdurdod i alluogi cyfrif newydd neu newid manylion talu BACS fel sy'n dilyn:

Manylion y Cyflenwr

1. Enw cofrestredig y cwmni
2. Enw masnachu'r cwmni
3. Rhif cofrestru'r cwmni
4. Rhif cofrestru TAW

Manylion Cyfeiriad y Cyflenwr

1. Cyfeiriad Cofrestredig
2. Cyfeiriad Rheoli Credyd/Cyllid

Manylion Cyswllt

1. Cyfeiriad e-bost ar gyfer archebion prynu
2. Cyfeiriad e-bost ar gyfer hysbysiad talu
3. Cyfeiriad e-bost ar gyfer ymholiadau anfonebau

Manylion Talu

1. Enw'r Banc
2. Enw a chyfeiriad y gangen
3. Enw Cyfrif Banc y Cwmni
4. Rhif Cyfrif Banc

4. Rhif Ffôn ar gyfer Cyfrifon Derbyniadwy/Rheoli Credyd

5. Cod Didoli Cyfrif Banc

- 7.8. Os bydd newid yn y manylion banc, dylai'r Derbynnnydd perthnasol hysbysu'r Awdurdod ar unwaith o'r wybodaeth newydd. Rhaid darparu hysbysiad o'r fath yn ysgrifenedig, ar ffurf PDF, ac yn unol â gofynion Cymal 7.7.
- 7.9. Rhaid i'r Derbynnnydd gofnodi gwariant yn ei gofnodion cyfrifyddu o dan safonau cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol mewn ffordd y gellir tynnu'r costau perthnasol yn syml os oes angen. Drwy gydol y flwyddyn, bydd tîm Cyllido'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Derbynnnydd i sicrhau cywirdeb hawliadau, a thrwy hynny leihau'r angen am archwiliadau ar ddiwedd y flwyddyn.

8. Monitro a gwerthuso

- 8.1. Dylai'r Derbynnnydd ei hun reoli a gweinyddu ansawdd a lefel y ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r cymorth y mae'n ei roi i Fuddiolwyr.
- 8.2. Bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r Derbynnnydd ddarparu gwybodaeth a dogfennaeth ynghylch Buddiolwyr at ddibenion monitro a gwerthuso.
- 8.3. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth ar lefel unigol am Fuddiolwyr ar gyfer gwerthuso'r Cynlluniau. Dim ond trwy borth trosglwyddo data diogel yr Awdurdod, "MOVEIT DMZ", y dylid cyflwyno'r ffurflen dystiolaeth, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU.
- 8.4. Bydd y Derbynnnydd yn darparu gwybodaeth y gofynnir amdani i fonitro cynnydd yn erbyn y Datganiad o Ganlyniadau. Gall ymweliadau gael eu gwneud o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod neu ei gynrychiolwyr penodedig, gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Er nad oes angen cyflwyno costau manwl, mae'n rhaid i'r Derbynnnydd allu darparu'r costau ar gyfer achosion unigol ac, os bydd angen, bydd disgwyl iddo gyfiawnhau, egluro a dangos tystiolaeth o'r costau.
- 8.5. Ym mhob achos, er mwyn cynorthwyo gyda monitro a gwerthuso'r Cynlluniau, bydd y Derbynnnydd yn rhoi i'r Awdurdod yr holl wybodaeth ariannol y gofynnir amdani'n rhesymol o bryd i'w gilydd, ar sail llyfr agored.

9. Torri amodau cyllido

- 9.1. Lle mae Derbynnnydd yn methu â chydymffurfio ag **unrhyw un** o'r amodau a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn, neu os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yng Nghymal 9.2 yn digwydd, yna gall yr Awdurdod leihau, atal neu wrthod taliadau, neu fynnu bod y cyfan neu unrhyw ran o'r taliadau perthnasol yn cael eu had-dalu gan y Derbynnnydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Derbynnnydd ad-dalu unrhyw swm sy'n ofynnol o dan y Cymal 9.1 hwn o fewn tri deg (30) Diwrnod o dderbyn y cais am ad-daliad.
- 9.2. Mae'r digwyddiadau y cyfeirir atynt yng Nghymal 9.1 fel sy'n dilyn:
- 9.2.1. Mae'r Derbynnnydd yn honni ei fod yn trosglwyddo neu'n aseinio unrhyw hawliau, buddiannau neu rwymedigaethau sy'n codi o dan y Cytundeb hwn heb gytundeb ymlaen llaw gan yr Awdurdod, neu
- 9.2.2. Canfyddir bod unrhyw wybodaeth a ddarperir yn y cais am Gyllid (neu mewn hawliad am daliad neu Gostau Eithriadol) neu mewn unrhyw

ohebiaeth ategol ddilynol yn anghywir neu'n anghyflawn i'r graddau y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yn berthnasol, neu

- 9.2.3. Mae'r Derbynnnydd yn cymryd mesurau annigonol i ymchwilio i unrhyw afreoleidd-dra a adroddir a'i ddatrys.

10. Gweithgareddau – Cyffredinol

Is-gontractio

- 10.1. Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau rhaid i'r Derbynnnydd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol, er enghraifft Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Beth bynnag, bydd y Derbynnnydd yn dangos gwerth am arian ac yn gweithredu mewn modd teg, agored ac anwahaniaethol ym mhob achos o brynu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi cyflawni'r Cynlluniau.
- 10.2. Pan fo'r Derbynnnydd yn ymrwmo i gontract (neu fath arall o gytundeb) ag unrhyw drydydd parti ar gyfer darparu unrhyw ran o'r Cynlluniau, bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod amod yn cael ei gynnwys yn y contract neu gytundeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Derbynnnydd dalu'r holl symiau sy'n ddyledus. o fewn cyfnod penodol: bydd hyn fel y'i diffinnir gan delerau'r contract neu'r cytundeb hwnnw, ond ni fydd yn hwy na thri deg (30) Diwrnod o ddyddiad derbyn anfoneb ddilysedig.
- 10.3. Rhaid i'r Derbynnnydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran yn dwyn anfri ar yr Awdurdod na'r Cynlluniau; er enghraifft, oherwydd rhagfarnu a/neu fod yn groes i fuddiannau'r Awdurdod a/neu'r Cynlluniau.

Oriau Gweithredu

- 10.4. Bydd y Derbynnnydd yn nodi bod yr Awdurdod yn cyflawni busnes arferol yn ystod yr oriau 09.00 i 17.00 ar Ddiwrnodau Gwaith.
- 10.5. Darperir y Cynllun o leiaf ar bob Diwrnod Gwaith. Mae'r Awdurdod yn cydnabod, er budd effeithlonrwydd, y bydd union argaeledd ac amseriad yr elfennau gwasanaeth amrywiol yn amrywio. Rhagwelir y bydd angen rhywfaint o ddarpariaeth y tu allan i oriau gan y Derbynnnydd.
- 10.6. Dylai pob safle a ddefnyddir i gyflawni elfennau'r Cynllun fodloni'r holl ofynion rheoleiddio a bod yn addas i'r diben.

Cwynion

- 10.7. Bydd y Derbynnnydd a/neu ei bartneriaid cyflawni yn datblygu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau sy'n galluogi Buddiolwyr i gwyno am y gefnogaeth a'r cymorth a ddarperir gan y Derbynnnydd.

Safonau Staff

- 10.8. Bob amser wrth gyflawni'r Cynlluniau, bydd y Derbynnnydd yn ymwybodol o fwriad, ac yn gweithredu ysbryd, "Cod Ymddygiad ar gyfer Derbynwyr Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth"³ Llywodraeth y DU sy'n amlinellu'r safonau a'r ymddygiadau y mae'r Llywodraeth yn eu disgwyl o'i holl Bartneriaid Cyflenwi.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/supplier-code-of-conduct>

- 10.9. Bydd y Derbynnnydd yn:
- 10.9.1. sicrhau bod y broses o recriwtio, dethol a hyfforddi Staff yn gyson â'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau,
 - 10.9.2. cyfarparu a hyfforddi Staff yn llawn i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rolau a sicrhau bod darpariaethau diogelwch priodol a digonol yn cael eu gwneud ar gyfer yr holl Staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau wyneb yn wyneb,
 - 10.9.3. sicrhau bod lefelau Staff yn briodol bob amser at ddibenion cyflawni'r Cynlluniau a sicrhau diogelwch a lles yr holl Fuddiolwyr, plant dibynnol, a'i Staff,
 - 10.9.4. cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod nhw ac unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan yn meddu ar yr holl gymwysterau, trwyddedau, hawlenni, sgiliau, a phrofiadau angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, yn ddiogel ac yn unol â'r holl ddeddfau perthnasol sydd mewn grym am y tro; mor bell ag y mae'n rhwymo'r Derbyniwr), a
 - 10.9.5. sicrhau bod ganddo bolisiau sefydliadol perthnasol ar waith i gyflawni'r gweithgareddau a ariennir gan y Cyfarwyddyd hwn. Bydd y rhain yn parhau i fod yn gyfredol drwy gydol y Cyfarwyddyd hwn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan staff priodol uwch. Rhaid i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r polisiau hyn a sut i godi unrhyw bryderon.
 - 10.9.6. trefnu ei bod yn ofynnol i bob ymgeisydd am gyflogaeth mewn cysylltiad â'r Cynlluniau ddatgan ar eu ffurflenni cais unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol yn amodol bob amser ar ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.
- 10.10. Yn ogystal, bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod yr holl Staff:
- 10.10.1. a gyflogir neu a gyflogir dros dro â'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig o dan ddeddfau mewnfudo perthnasol, ac
 - 10.10.2. eu bod yn addas ac o gymeriad da i ddarparu cymorth i Fuddiolwyr. Rhaid ystyried cymhwysedd ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS2). Lle mae gwiriadau o'r fath yn datgelu euogfarnau troseddol blaenorol y gellid yn rhesymol eu hystyried yn berthnasol i briodoldeb yr unigolyn i gael mynediad heb oruchwyliaeth, yn arbennig i blant o dan 18 oed, neu lle nad yw gwiriadau o'r fath yn bosibl oherwydd problemau adnabod, bydd y Derbynnnydd yn dilyn ei bolisi mewmol a chynnal asesiad risg priodol cyn cynnig cyflogaeth, a
 - 10.10.3. sy'n debygol o gael mynediad heb oruchwyliaeth at blant o dan 18 oed wedi'u cyfarwyddo yn unol â'r canllawiau amddiffyn plant cenedlaethol perthnasol e.e. ar gyfer pobl sy'n gweithio yn Lloegr, canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg, 2015, a chanllawiau a gweithdrefnau Awdurdodau Lleol, a
 - 10.10.4. sy'n darparu cyngor ar fewnfudo fod yn hysbys i Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) yn unol â'r cynllun rheoleiddio a nodir o dan Ran 5 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999. Bydd y Derbynnnydd yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau nad yw Staff yn darparu cyngor ar fewnfudo neu

wasanaethau mewnfudo oni bai eu bod yn “gymwys” neu “eithriadig” fel y'u pennir ac a ardystir gan OISC.

- 10.10.5. Mae cyfrifoldebau a rhwymedigaethau diogelu'n berthnasol cyhyd â bod personél, gan gynnwys gwirfoddolwyr, yn ymwneud yn ffurfiol â'r Awdurdod Lleol wrth ddarparu gwasanaethau adsefydlu ac integreiddio i'r Buddiolwr.
- 10.11. Bydd y Derbynnnydd, ar gais, yn darparu i'r Awdurdod fanylion yr holl Staff sy'n cyflwyno'r Cynlluniau.
- 10.12. Bydd y Derbynnnydd, ar gais, yn rhoi CVs a/neu ddisgrifiadau swyddi i'r Awdurdod ar gyfer yr holl Staff a ddewisir i weithio ar y prosiect.
- 10.13. Bydd y Derbynnnydd yn gwneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â gofynion Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990.
- 10.14. Bydd y Derbynnnydd yn gweithredu'r Cynlluniau yn unol â darpariaethau Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU.

11. Atebolrwydd

- 11.1. Nid yw'r Awdurdod yn derbyn unrhyw atebolrwydd i'r Derbynnnydd nac i unrhyw drydydd parti am unrhyw gostau, hawliadau, difrod, neu golledion, sut bynnag y'i tynnir, ac eithrio i'r graddau y cânt eu hachosi gan esgeulustod neu gamymddwyn yr Awdurdod.

12. Datrys anghydfodau

- 12.1. Bydd y Partïon yn ceisio'n ddiwyll i negodi setliad i unrhyw anghydfod rhyngddynt sy'n codi o'r Cyfarwyddyd hwn neu mewn cysylltiad ag ef.
- 12.2. Gall y Partïon setlo unrhyw anghydfod gan ddefnyddio proses datrys anghydfodau y maent yn cytuno arni.
- 12.3. Os na all y Partïon ddatrys anghydfod yn unol â gofynion Cymalau 12.1 neu 12.2, gellir cyfeirio'r anghydfod, trwy gytundeb rhwng y Partïon, at gyfryngu yn unol â'r Weithdrefn Gyfryngu Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Datrys Anghydfodau'n Effeithiol (“CEDR”), neu unrhyw weithdrefn gyfryngu arall y cytunir arni gan y Partïon. Oni chytunir fel arall rhwng y Partïon, bydd y cyfryngwr yn cael ei enwebu gan CEDR. Er mwyn cychwyn y cyfryngu bydd y Partï'n rhoi rhybudd ysgrifenedig (y Rhybudd ADR) i'r Parti arall, a bydd y Parti olaf hwnnw'n dewis p'un ai i gytuno i gyfryngu ai peidio. Dylid anfon copi o'r Hysbysiad ADR i CEDR. Bydd y cyfryngu'n dechrau ddim hwyrach na deg (10) Diwrnod Gwaith ar ôl dyddiad yr Hysbysiad ADR.
- 12.4. Ni fydd perfformiad y rhwymedigaethau sydd gan y Derbynnnydd o dan y Cyfarwyddyd hwn yn dod i ben nac yn cael ei oedi oherwydd bod anghydfod wedi'i gyfeirio at gyfryngu o dan Gymal 12.3 o'r Cyfarwyddyd hwn.

13. Manylion cyswllt

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â'r Cyfarwyddyd hwn neu gyflwyno ceisiadau am daliadau, anfonwch e-bost at y tîm Asefydlu Taliadau Awdurdodau Lleol perthnasol yn: Afghanschemepayments@homeoffice.gov.uk

Atodlen 1: Cymorth Adsefydlu Ar Ôl Cyrraedd

1. Rhan 1 – datganiad o'r canlyniadau blwyddyn 1

Darpariaeth llety

- 1.1 Bydd y Derbynnnydd yn trefnu llety ar gyfer y Buddiolwyr y mae'n eu cefnogi sydd:
 - 1.1.1 yn diwallu safonau'r awdurdod lleol, ac
 - 1.1.2 a fydd ar gael wrth iddynt gyrraedd a/neu adleoli i ardal yr awdurdod lleol, a
 - 1.1.3 sydd yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.
- 1.2 Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod y llety wedi'i ddodrefnu'n briodol. Ni ddylai'r Cyllid gael ei ddefnyddio i gaffael eitemau moethus: Mae hyn yn golygu y dylai'r Cyllid a dderbynnir gael ei ddefnyddio ar gyfer storio bwyd, coginio, a chyfleusterau ymolchi ond ni ddylai gynnwys darparu nwyddau gwyn eraill neu nwyddau brown, h.y. setiau teledu, chwaraewyr DVD neu unrhyw rai offer adloniant trydanol eraill. Ni fydd hyn yn atal y Derbynnnydd rhag darparu nwyddau moethus, gwyn neu frown ychwanegol i Fuddiolwyr trwy ffynonellau cyllid eraill.
- 1.3 Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod y Buddiolwyr wedi'u cofrestru gyda chwmnïau cyfleustodau ac yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer taliadau'n cael eu rhoi yn eu lle (dim cyfrifon mesurydd rhag-dalu arian parod na cherdyn)⁴.
- 1.4 Bydd y Derbynnnydd yn darparu sesiynau briffio ar lety a materion iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl newydd-ddyfodiaid gan gynnwys darparu pwynt cyswllt brys.
- 1.5 Lle mae'r Derbynnnydd yn cefnogi Buddiolwyr, sydd ar hyn o bryd mewn gwestai pontio, i ddod o hyd i'w llety eu hunain yn y sector rhentu preifat mae angen iddynt sicrhau bod pwyntiau 1.1 i 1.5 yn cael eu diwallu. Mae disgwyl i awdurdodau lleol adsefydlu wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod llety rhent preifat a ganfyddir gan Fuddiolwyr yn ddiogel, ac mewn cyflwr rhesymol; a bod pob teulu sy'n chwilio am eu llety eu hunain yn cael arweiniad digonol i'w galluogi i ystyried eu safonau perthnasol.
- 8.2 Dylai staff wybod sut i gael, defnyddio a rhannu gwybodaeth sydd ei hangen arnynt yn gyfreithlon i wneud eu gwaith.
- 8.3 Mae gan staff rwymedigaeth i ofyn am brawf adnabod neu gymryd camau i ddilysu awdurdodiad rhywun arall cyn datgelu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani o dan y DSP hwn.
- 8.4 Dylai staff gadw at egwyddorion cyffredinol cyfrinachedd, dilyn y canllawiau a nodir yn y DSP hwn a cheisio cyngor pan fo angen.
- 8.5 Dylai staff fod yn ymwybodol bod unrhyw achos o dorri preifatrwydd neu dorri cyfrinachedd yn anghyfreithlon ac yn fater disgyblu a allai arwain at eu diswyddo. Gellir dwyn achos troseddol yn erbyn yr unigolyn hwnnw hefyd.

9. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 9.1 Bydd yr Awdurdod a'r Derbynnnydd ill dau yn ateb unrhyw geisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n eu derbyn am wybodaeth y mae'n ei chadw dim ond o ganlyniad i'r trefniant rhannu data hwn neu am y trefniant rhannu data hwn. Mewn achosion o'r fath pan dderbynnir cais o'r fath, bydd yr Awdurdod a'r Derbynnnydd yn:
 - Ymgynghori â'r llall cyn penderfynu a ddylid datgelu'r wybodaeth ai peidio.
 - Caniatáu cyfnod o bum (5) diwrnod gwaith o leiaf i'r llall ymateb i'r ymgynghoriad hwnn; a
 - Pheidio â datgelu unrhyw ddata personol a fyddai'n torri egwyddorion deddfwriaeth Diogelu Data'r DU.

10. Dull Trosglwyddo Data Personol Buddiolwr

- 10.1 Bydd yr Awdurdod yn defnyddio proses ddiogel, a elwir yn MOVEit, i drosglwyddo'r data sy'n caniatáu i ddefnyddwyr mewnol ac allanol rannu ffeiliau'n ddiogel a bydd yn darparu'r modd rhyngweithio rhwng y partïon.
- 10.2 Bydd y Derbynnnydd yn cael mynediad i MOVEit dros borwr ar y we. Unwaith y bydd y trefniant hwn yn weithredol, bydd yn ofynnol i'r Derbynnnydd, i'r graddau a bennir o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod, ddefnyddio MOVEit at ddiben ei ryngwyneb â'r Awdurdod o dan y Memorandwm hwn.
- 10.3 Dylai rhestr o Staff awdurdodedig fod ar gael i'w harchwilio os bydd yr Awdurdod yn gofyn am hynny.

11. Cyfyngiadau Ar Ddefnydd O'r Wybodaeth A Rennir

- 11.1 Rhaid defnyddio'r holl wybodaeth am Fuddiolwr sydd wedi'i rhannu gan yr Awdurdod at y dibenion a ddiffinnir yn Adran 3 o'r DSP hwn yn unig, oni bai ei

bod yn ofynnol dan statud neu reoliad neu o dan gyfarwyddiadau llys. Felly, ni fydd unrhyw ddefnyddiau pellach a wneir o'r data personol yn gyfreithlon nac yn dod o dan y DSP hwn.

- 11.2 Gall cyfyngiadau hefyd fod yn berthnasol i unrhyw ddefnydd pellach o wybodaeth bersonol, megis sensitifrwydd masnachol neu ragfarn i eraill a achosir gan ryddhau'r wybodaeth, a dylid ystyried hyn wrth ystyried defnydd eilaidd o wybodaeth bersonol. Os bydd unrhyw amheuaeth, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod a bydd ei benderfyniad ef – ym mhob achos – yn derfynol.
- 11.3 Rhaid gwneud cofnod llawn o unrhyw ddatgeliad(au) eilaidd os oes angen yn ôl y gyfraith neu orchymyn llys ar ffeil achos y Buddiolwr a rhaid iddo gynnwys y wybodaeth ddilynol o leiaf:
- Dyddiad datgelu.
 - Manylion y sefydliad sy'n gwneud cais.
 - Rheswm dros y cais.
 - Pa fath(au) o ddata y gofynnwyd amdano(ynt).
 - Manylion y person awdurdodi.
 - Dulliau trosglwyddo (rhaid eu bod yn ddiogel); a
 - Chyfiawnhad dros ddatgelu..
- 11.4 Mae'r cyfyngiadau ar ddatgeliadau eilaidd fel y nodir ym mharagraffau 11.1 ac 11.2 o'r DSP hwn yr un mor berthnasol i dderbynwyr trydydd parti sydd wedi'u lleoli yn y DU a derbynwyr trydydd parti sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU megis asiantaethau gorfodi rhyngwladol.

12. Archwiliadau

- 12.1 Mae'r Derbynnnydd yn cytuno y gellir ei archwilio ar gais yr Awdurdod i sicrhau bod y data personol wedi'u storio a/neu eu dileu'n briodol, a'u bod wedi cydymffurfio â'r protocolau diogelwch a nodir yn y DSP hwn.
- 12.2 Mae'r Awdurdod yn cadarnhau na fyddai unrhyw wybodaeth arall yn cael ei hadolygu na'i harchwilio at y diben hwn.

Atodiad D – Addasiadau Eiddo Ar Gyfer Buddiolwyr

Byddai angen cael cymeradwyaeth 'mewn egwyddor' gan Dîm Taliadau Cynlluniau Affganistan cyn i unrhyw waith gael ei wneud. Byddai disgwyl i gostau fod yn unol â chostau cyfartalog pob addasiad a ddangosir yn y tabl uchod. Bydd y Cynlluniau'n ystyried costau gwrthdroi addasiadau eiddo rhesymol - byddai angen cael cymeradwyaeth gan Dîm Taliadau Cynlluniau Affganistan cyn gwneud unrhyw waith.

Rhennir addasiadau eiddo ar gyfer Buddiolwyr sydd â phroblemau symudedd yn ddau gategori:

- a) mân addasiadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyfradd dariff, ac
- b) addasiadau mawr y gellir talu amdanynt o'r gronfa Achosion Eithriadol.

Mân addasiadau

Mae'r rhain yn waith lle nad oes angen unrhyw newidiadau strwythurol i'r eiddo, gan gynnwys:

- rheiliau cydio
- rheiliau grisiau
- tapiau lifer
- trothwyon mynediad gwastad
- hanner grisiau i ddrysau
- clychau drws yn fflachio/dirgrynu/larymau mwg, a
- chawodydd dros y bath.

Byddai'r rhain yn cael eu talu o'r tariff safonol ar gyfer pob Buddiolwr.

Addasiadau mawr

Mae'r rhain yn waith sydd angen newidiadau strwythurol i'r eiddo a gallant gynnwys:

Addasiad	Cost gyfartalog amcangyfrifedig (£GBP)
cyfleusterau cawod mynediad gwastad	£3,500
liffitiau grisiau	£1,500 (Syth) – £5,000 (Corneli)
rampiau	£500 to £1,000
newid uchder arwynebau gwaith cegin	£2,000
Addasu'ch cartref ar gyfer defnydd cadair olwyn megis lledu drysau	£600 - £800 y drws
cyfleusterau ystafell ymolchi/ystafell wely ar y llawr gwaelod	£2,000 i £3,000

Gall y rhain gael eu cyllido gan y gronfa achosion eithriadol yn dilyn asesiad gan therapydd galwedigaethol neu berson â chymwysterau tebyg. Yr uchafswm y gellir ei wario ar unrhyw eiddo yw £30,000 ac ni ddylai gynnwys estyniadau.

Os bydd grant ar gael ar gyfer addasu eiddo Cymdeithasol neu Breifat ar Rent mae'n ofynnol i'r landlord sicrhau bod yr eiddo ar gael i'w osod gan y tenant am gyfnod o bum (5) mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith, yn unol â'r trefniadau Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

Atodiad E – Costau Gwag Ar Gyfer *Eiddo Pedair Ystafell Wely

1. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gallu defnyddio tariff Blwyddyn Un (gweler Atodlen 1, Rhan 1) i dalu am gyfnod o gostau gwag. I adlewyrchu hyn, mae costau gwag pum deg chwech (56) Diwrnod ('gwag') eisoes wedi'u cynnwys yn y tariff er mwyn galluogi Derbynwyr i sicrhau eiddo cyn i deuluoedd y buddiolwyr gyrraedd.
2. Mae'r Awdurdod yn deall yr heriau cyflenwi sy'n gysylltiedig â sicrhau eiddo *pedair (4) neu fwy yn benodol. Er mwyn cefnogi Derbynwyr a Noddwyr Cymunedol i sicrhau'r eiddo hwn pan fyddant ar gael, mae'r Awdurdod wedi cytuno i gyllido wyth ar hugain (28) Diwrnod gwag ychwanegol fel Cost Eithriadol y tu allan i'r tariff. Bydd hyn yn dod â chyfanswm y cyfnod o ddiwrnodau gwag hyd at wyth deg pedwar (84) Diwrnod.


Meini prawf

3. Gall derbynwyr gyflwyno hawliad Costau Eithriadol i dalu am hyd at wyth ar hugain (28) diwrnod gwag ychwanegol ar gyfer pedwar (4) neu fwy o ystafelloedd gwely yn unig.
4. Rhaid cyflwyno tystiolaeth i gyd-fynd â phob hawliad sy'n dangos bod diwrnodau gwag dros ben wedi'u tynnu y tu hwnt i'r tariff pum deg chwech (56) Diwrnod, hyd at uchafswm o wyth ar hugain (28) Diwrnod ychwanegol.
5. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried diwrnodau gwag eraill mewn amgylchiadau eithriadol, megis teulu'n methu â chyrraedd ar ôl i'r eiddo gael ei sicrhau.
6. Gofynnir i dderbynwyr gysylltu â'u swyddog cyswllt rhanbarthol i drafod a ydynt yn credu bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Atodiad F – Canllaw I Hawlio Costau Eithriadol

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau byddai angen ceisio cymeradwyaeth 'Mewn egwyddor' gan Dîm Taliadau Cynlluniau Affganistan cyn i unrhyw waith gael ei wneud. Os oes brys, cysylltwch ag arweinydd Tîm Taliadau Cynlluniau Affganistan.

Cymeradwyaeth mewn egwyddor



Gall oedi ddigwydd pan na fydd y Swyddfa Gartref yn derbyn digon o wybodaeth i benderfynu mewn egwyddor.

Enghreiffiau o wybodaeth ategol

Addasiadau eiddo

- Gwybodaeth ynghylch yr angen am yr addasiadau e.e. Aseiad OT, gwybodaeth feddygol arall.
- Amcangyfrif o gost pob addasiad – dylid darparu o leiaf dau amcangyfrif, i ddangos bod y gwerth gorau am arian wedi'i gyflawni.

Costau gwag

- Cofiwch fod y tariff yn cynnwys cyllid ar gyfer y 56 diwrnod cyntaf ar gyfer rhentu eiddo.
- Rheswm dros hawlio costau gwag ychwanegol.
- Tystiolaeth o wariant e.e. anfonebau rhent.
- Tystiolaeth o'r dyddiad y prynwyd yr eiddo ar gyfer adsefydlu.

Costau SEND

- Gwybodaeth am anghenion penodol cleientiaid, wedi'i hategu gan Aseiad Addysg, Gofal ac Iechyd (ECHA), adroddiad Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA) neu debyg. Cynhwyswch fanylion yr hyn y gofynnir amdano.
- Cost cymorth addysgu bwrpasol.
- Hysbyseb am y cymorth addysgu.
- Manylion ac amcangyfrif o gostau unrhyw offer arbenigol, gan ddarparu amcangyfrifon i ddangos y gwerth gorau am arian.

Costau Gofal Cymdeithasol

- Therapi Galwedigaethol ac aseuadau meddygol.
- Manylion ac amcangyfrif o gostau gofal arbenigol.
- Manylion ac amcangyfrif o gostau unrhyw offer arbenigol, gan ddarparu amcangyfrifon i ddangos y gwerth gorau am arian.

Prosesu hawliad cost eithriadol

- Unwaith y bydd gwariant wedi digwydd, gall awdurdod lleol gyflwyno hawliad am gostau eithriadol a gymeradwyir ymlaen llaw.

- Mae'r Awdurdod Lleol yn llenwi ffurflen hawlio "Costau Eithriadol.
- Cais yn cael ei gyflwyno gyda'r holl dystiolaeth o wariant, naill ai drwy e-bost i Afghanschemepayments@homeoffice.gov.uk
- (os nad oes gwybodaeth bersonol); neu
- Drwy gyfrif Atodiad A SRP MOVEit.

- Mae'r tîm Taliadau Cynllun Affganistan yn gwirio'r holl wybodaeth a gyflwynir gan yr awdurdod lleol.
- Os yw'r hawliad wedi'i gwblhau, caiff ei gymeradwyo i'w dalu o fewn 10 diwrnod gwaith.

- Hysbysiad Talu'n cael ei anfon at yr awdurdod lleol

Atodiad G – Canllaw I Hawlio Costau Cymorth Tai Ychwanegol

1. Mae cyllid ar gael tuag at gostau tai ychwanegol y mae Derbynnnydd wedi'u tynnu o reidrwydd i ariannu llety i deuluoedd mwy fel y nodir isod. Er y bydd cyfanswm y cyllid ar gael am hyd at 3 blynedd o ddyddiad dechrau'r denantiaeth, mae'r mwyafrif i'w ddyrannu ym mlwyddyn un (£15m) gyda chyfanswm y symiau cyllid ym lleihau ym mlwyddyn 2 (£7.5m) a blwyddyn 3 (£3m). Yn ystod y cyfnod hwn disgwylir i ardaloedd lleol gefnogi teuluoedd i ddod o hyd i waith ac i allu ariannu eu llety eu hunain.
2. Mae'r cyllid ar gael lle bo angen i gartrefu teuluoedd ARAP, i deuluoedd sy'n dod i'r DU fel rhan o'r gwacáu, sy'n cael eu hadsefydlu o dan yr ACRS, a dinasyddion Prydeinig cymwys. Mae'r Llywodraeth yn darparu'r cyllid hwn i gydnabod yr angen sy'n deillio o'r gwacáu i ddod o hyd i nifer sylweddol o eiddo mewn cyfnod byr o amser. Nid yw'r cyllid ar gael i gartrefu teuluoedd ACRS nad oeddent yn rhan o'r cyfnod gwacáu a ddaeth i ben ar 31 Awst 2021, gan y bydd gan awdurdodau lleol fwy o amser i nodi llety addas a fforddiadwy.
3. Mae tri thaliad posibl ar gael. Gall derbynwyr wneud cais am gyllid o dan fwy nag un categori ar gyfer un aelwyd. Os yw Derbynnnydd yn gwneud cais am gyllid o dan fwy nag un categori mewn perthynas ag aelwyd, rhaid iddo ddangos nad oes unrhyw ddyblygu.
4. Ar gyfer pob un o'r tri thaliad posibl, dylai'r Derbynnnydd ystyried cynaliadwyedd yr eiddo ar gyfer y teulu yn y tymor hwy. Gellir gwneud taliadau i helpu'r teulu i dalu'r rhent yn y tymor byr tra byddant yn setlo ac yn sicrhau cyflogaeth, ond y nod ddylai fod i'r teulu allu talu'r rhent yn llawn gan ddefnyddio incwm o gyflogaeth a/neu fudd-daliadau cyn gynted â phosibl.
5. Y disgwyl yw na fydd y rhan fwyaf o deuluoedd angen cymorth o'r cyllid hwn y tu hwnt i'r 12 mis cyntaf pan fydd y denantiaeth yn cael ei sicrhau. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae darpariaeth ar gyfer rhywfaint o barhad cyllid ym mlynnyddoedd 2 a 3 ar gyfer aelwydydd nad ydynt yn gallu talu eu rhent yn llawn eto. Dylai derbynwyr wneud cais cychwynnol am gyllid i sicrhau'r denantiaeth a'i chynnal am o leiaf y 12 mis cyntaf. Os, trwy eithriad, mae angen cyllid pellach y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 12 mis, gall y Derbynnnydd wneud cais eto, ond dylai ddarparu tystiolaeth (fel y nodir isod) bod yr aelwyd wedi cael cymorth i geisio sicrhau cyflogaeth a/neu gael mynediad at yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt ond bod ganddynt ofyniad parhaus o hyd i gefnogi costau tai.
6. Os caiff cais am gyllid ei gymeradwyo, bydd cyllid ar gael i'r Derbynnnydd. Dylai'r Derbynnnydd wneud y taliad y cytunwyd arno'n uniongyrchol i'r landlord ac nid i'r aelwyd, bydd hyn yn golygu nad yw'n effeithio ar hawl yr aelwyd i gael budd-daliadau.
7. Bydd llawer o dimau Tai a Digartrefedd awdurdodau lleol yn gwneud taliadau tebyg i'r rhai a nodir isod er mwyn cefnogi aelwydydd sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Cynghorir y Derbynnnydd i geisio cymorth gan dîm Tai

a/neu Ddigartrefedd yr ALI os yw'r Derbynnnydd yn anghyfarwydd ag ymgysylltu â landlordiaid sector preifat a gwneud trefniadau o'r fath.

A. Taliad i gynorthwyo gyda diffyg mewn costau tai oherwydd bwlch LHA/ rhent

8. Dylai pob eiddo a sicrheir ar gyfer Buddiolwyr fod o fewn y Lwfans Tai Lleol (LHA) neu'n agos at derfynau'r LHA fel bod tenantiaethau'n gynaliadwy gyda chymorth Credyd Cynhwysol neu hebddo. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae cyllid ar gael i helpu i sicrhau eiddo mwy yn y sector rhentu preifat sy'n fforddiadwy i deuluoedd, lle nad oes eiddo addas ar gael i'w gosod ar lefelau rhent LHA. Gall cyllid dalu am daliadau ymlaen llaw unwaith ac am byth i'r landlord a wneir yn gyfnewid am ostyngiad yn y rhent o fewn terfyn yr LHA; neu gyllid 'atodol' wythnosol sy'n cael ei dalu nes bod y teulu'n gallu talu'r rhent contractiol llawn heb gymorth o'r fath.
9. Lle gwneir taliad untro ymlaen llaw, yn ddefnyddiol bydd Derbynnwyr yn sicrhau tenantiaeth 2 neu 3 blynedd o'r cychwyn cyntaf trwy wneud taliad ymlaen llaw cychwynnol hyd at yr uchafswm ar gyfer taliad cychwynnol a nodir isod. Rydym yn cydnabod y gallai fod angen cyllid ychwanegol i ymestyn tenantiaeth yn yr ail neu'r drydedd flwyddyn pe na byddai'r Derbynnnydd yn gallu sicrhau tenantiaeth 2 neu 3 blynedd ac nad yw'r aelwyd wedi sicrhau cyflogaeth. Adlewyrchir hyn yn y symiau cyllid gwahaniaethol a nodir yn y meini prawf isod.

10. Bydd y meini prawf canlynol yn berthnasol i'r rhan A hon:

- Mae cyllid ar gael i sicrhau eiddo gyda 3 ystafell wely neu fwy yn y sector rhentu preifat.
- Ar gyfer pob aelwyd a leolir, gall Derbynnwyr dderbyn cyllid ar gyfer **taliadau ymlaen llaw** neu ar gyfer **ychwanegiadau wythnosol**, ond nid y ddau.

Taliadau Ymlaen Llaw

- Dylai tenantiaethau a sicrheir gan ddefnyddio taliad untro ymlaen llaw fod am 2 neu 3 blynedd lle bynnag y bo modd, er, yn eithriadol, gellir sicrhau tenantiaeth 12 mis gan ddefnyddio'r cyllid hwn lle mai dyna'r unig opsiwn sydd ar gael.²⁰
- Gellir adennill costau ychwanegol taliadau ymlaen llaw pellach, o fewn yr uchafsymiau a nodir isod lle mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau cytundeb landlord i ymestyn tenantiaeth pan ddaw'r contract cychwynnol i ben.

Ychwanegiadau wythnosol

- Bydd cyllid ar gyfer ychwanegiadau wythnosol ar gael nes bydd yr aelwyd yn sicrhau cyflogaeth gyda chyflog digonol i ddileu hawl i Gredyd Cynhwysol.
- Lle gwneir ychwanegiad wythnosol, bydd y cyllid ar gael am y 12 mis cyntaf o gymorth tai, ac eithrio lle gall yr awdurdod lleol ddangos rhwystr(au) penodol i'r aelwyd yn cael gwaith.

²⁰ Nid yw'r gofyniad am gyfnod penodol yn berthnasol yn yr Alban lle dylai tenantiaethau a sicrheir gan ddefnyddio'r cyllid hwn fod yn denantiaethau preswyl preifat parhaus, yn unol â deddfwriaeth tenantiaeth yr Alban.

Symiau uchaf

- Mae'r costau y gellir eu hadennill ar gyfer taliad untro cychwynnol ymlaen llaw hyd at uchafswm o £4,000 fesul aelwyd ar gyfer tenantiaethau yn Llundain, a £3,000 fesul aelwyd ar gyfer tenantiaethau y tu allan i Lundain; ond ni ddylai fod yn fwy na'r symiau a delir fel arfer gan y Derbynnnydd wrth sicrhau eiddo ar gyfer aelwydydd digartref yn yr ardal.
- Yr uchafswm y gellir ei adennill, naill ai fel taliadau untro neu ychwanegiad rhent, dros y cyfnod cyllido 3 blynedd yw £6,000 y tu mewn i Lundain a £4,500 y tu allan i Lundain.

Enghreiffiau (sylwer: at ddibenion enghreifftiol yn unig ac ni ddylid dibynnu arnynt ar gyfer asesu costau tebygol):

Mae awdurdod lleol wedi nodi eiddo 3 ystafell wely sy'n addas ar gyfer teulu o 6 y tu allan i Lundain, ond mae'r rhent yn uwch na chyfradd y Lwfans Tai Lleol (LHA) ac nid yw'r landlord yn fodlon gosod yr eiddo ar lefel LHA. Y rhent misol yw £800 y mis calendr (ymc) a'r LHA yw £680, gan adael diffyg o £120ymc. Mae'r landlord yn fodlon cynnig tenantiaeth dwy flynedd gan gydnabod yr angen i ddarparu cartref sefydlog.

Opsiwn 1: Ychwanegiad Untro

Mae'r ALI yn cynnig darparu taliad ychwanegol i'r landlord yn gyfnewid am denantiaeth dwy flynedd ar lefel LHA.

- Gwahaniaeth rhwng rhent eiddo a LHA = £120ymc
- Ar gyfer tenantiaeth dwy flynedd mae'r ALI yn cynnig taliad untro o 24 x £120 = £2880

Ar ôl 2 flynedd mae'r landlord yn cynnig codi rhent i £810ymc, sef y rhent marchnad y gellir ei gyflawni ar gyfer yr eiddo hwn. Mae'r teulu wedi setlo ac mewn cyflogaeth ond ar incwm isel ac yn hawlio Credyd Cynhwysol. Asesiad yr ALI yw na allant fforddio rhent uwch na £680ymc ac mae'n cynnig taliad i'r landlord i ymestyn y denantiaeth am flwyddyn arall tra bod y teulu'n ceisio cynyddu eu hincwm neu'n chwilio am dŷ arall.

- Gwahaniaeth rhwng rhent yr eiddo a LHA = £130ymc
- Ar gyfer tenantiaeth blwyddyn y diffyg yw 12 x £130 = £1560
- Cyfanswm y cyllid dros 3 blynedd yw £4440 (£2,880+£1,560) ac o fewn yr uchafswm sydd ar gael dros y 3 blynedd ar gyfer eiddo y tu allan i Lundain ac felly gellir ei dalu'n llawn gan y gronfa.

Opsiwn 2: Ychwanegiadau Wythnosol

Mae awdurdod lleol wedi nodi eiddo 4 ystafell wely sy'n addas ar gyfer teulu y tu allan i Lundain lle mae'r rhent £50ymc yn uwch na chyfradd y Lwfans Tai Lleol. Mae'r ALI yn cytuno â'r landlord y bydd yr eiddo'n cael ei osod ar y rhent contractiol ac mae'n ymrwymo i dalu'r diffyg rhent rhwng yr LHA a'r swm contractiol nes bod y teulu wedi sicrhau cyflogaeth gyda chyflog digonol i ddileu eu hawl i Gredyd Cynhwysol. Wrth sicrhau'r eiddo, mae'r ALI wedi bodloni ei hun bod y rhent ar lefel sy'n fforddiadwy i deuluoedd sy'n gweithio yn yr ardal nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol i gynorthwyo gyda chostau tai a chostau eraill.

11. Tystiolaeth o'r costau a dynnir sydd ei hangen i gefnogi'r hawliad:

- Ar gyfer taliadau untro ymlaen llaw, anfoneb neu dderbynneb gan y landlord yn cadarnhau taliad i sicrhau'r denantiaeth.
- Ar gyfer ychwanegiadau rhent, tystiolaeth o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r landlord A thystiolaeth o asesiad UC sy'n nodi bod yr aelwyd yn parhau i fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau p'un a ydynt wedi cael cyflogaeth ai peidio.
- Ar gyfer cyllid y tu hwnt i 12 mis neu gyfnod y denantiaeth a sicheir gyda thaliad ymlaen llaw, datganiad wedi'i lofnodi ar y cyd gan DWP i gadarnhau bod gan y teulu rwystrau penodol i gyflogaeth; a bod cymorth cyflogaeth yn cael ei ddarparu.

B. Taliad i gefnogi teuluoedd sy'n dibynnu ar Gredyd Cynhwysol (UC) wedi'i gyfyngu gan y cap budd-daliadau

12. Gall derbynwyr hawlio cyllid tuag at ddiffygion yn y Credyd Cynhwysol lle mae budd-daliadau aelwyd wedi'u capio. Mae'r cyllid ar gael lle:

- Nid yw'r cartref wedi sicrhau digon o waith cyflogedig i fod yn gymwys i gael ei eithrio o'r cap budd-daliadau, [ac](#)
- Mae'r Derbynnnydd wedi cynorthwyo'r aelwyd i wneud cais am unrhyw esemptiad cap budd-daliadau neu gyfnod gras a allai fod ar gael iddynt, [ac](#)
- Oherwydd y cap budd-daliadau, mae diffyg rhwng y swm sydd ei angen ar gyfer costau byw cyfunol yr aelwyd a thaliadau rhent o fewn y dyfarniad Credyd Cynhwysol.

13. Bydd y diffiniadau a'r meini prawf dilynol yn berthnasol i'r Rhan B hon:

- Y rhent a fydd yn cael ei ystyried wrth asesu cyllid diffyg fydd y rhent gwirioneddol sy'n daladwy hyd at uchafswm hawl Lwfans Tai Lleol (LHA).
- LHA yw'r swm a ddefnyddir gan DWP i gyfrifo'r uchafswm y gall pobl sy'n rhentu gan landlord preifat ei hawlio tuag at eu costau tai. Mae'n seiliedig ar y lleoliad a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar yr aelwyd. Mae cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer pob ardal i'w gweld yn [Cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol \(LHA\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).
- **Elfen Costau Tai hawliad Credyd Cynhwysol (UC)** yw'r uchafswm y gellir ei dalu i'r hawlydd UC tuag at ei rent, sef naill ai swm y rhent contractiol neu swm y Lwfans Tai Lleol, p'un bynnag yw'r isaf.
- Y **cap ar fudd-daliadau** yw'r uchafswm arian y gall hawliwr ei dderbyn ar UC os yw o oedran gweithio a ddim yn gymwys i gael esemptiad. Mae gwybodaeth am esemptiadau o'r cap ar fudd-daliadau ar gael yn [Cap budd-daliadau: Pannad effeithir arnoch - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- Bydd y cyllid ar gael am y 12 mis cyntaf o gymorth tai, ac eithrio lle gall yr awdurdod lleol ddangos rhwystr(au) penodol i'r aelwyd yn cael esemptiad cyflogaeth/cap budd-daliadau.

Enghraifft (noder: at ddibenion enghreifftiol yn unig ac ni ddylid dibynnu arno ar gyfer asesu costau tebygol), mae niferoedd sydd wedi'u talgrynnu wedi'u defnyddio er hwylustod):

Cwpl gyda 4 o blant 2, 6, 9, 13 oed yn byw y tu allan i Lundain.

- A: Lwfans safonol UC (£526) a lwfans plant (£779) + budd-dal plant (£282) = £1,587 ymc
- B: Costau tai ar gyfer eiddo 4 llofft ar LHA £875ymc
- C: Cyfanswm hawl i fudd-daliadau £2,462ymc (A+B)
- D: Terfyn y cap budd-daliadau £1,667ymc
- Didyniad cap budd-daliadau UC (sy'n gyfystyr â'r diffyg yn yr incwm budd-daliadau sydd ar gael i dalu costau tai a byw cyfunol) £795ymc (C-D)

14. Tystiolaeth o'r costau a dynnir sydd ei hangen i gefnogi'r hawliad:

- Copi o ddadansoddiad asesiad UC DWP ar gyfer yr aelwyd.
- Ar gyfer cyllid y tu hwnt i 12 mis, datganiad wedi'i gyd-lofnodi gan y DWP i gadarnhau bod gan y teulu rwystrau penodol i gyflogaeth nas cwpasir gan esemptiadau'r cap budd-daliadau; a bod cymorth cyflogaeth yn cael ei ddarparu.

15. Y swm sy'n gymwys ar gyfer cyllid fydd p'un bynnag yw'r isaf o swm y cap budd-daliadau neu swm costau tai yn yr asesiad Credyd Cynhwysol.

C. Talu costau eithriadol y tu allan i'r meini prawf uchod

16. Gall derbynwyr gyflwyno ceisiadau am gostau y tu allan i'r meini prawf uchod i dalu am gostau tai ychwanegol lle mae anghenion neu amgylchiadau eithriadol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn unman arall yn y trefniadau cyllido. Dylai amgylchiadau o'r fath fod yn wirioneddol eithriadol ac nid dim ond cais am gostau sy'n fwy na'r uchafswm a nodir yn rhannau A a B uchod.

17. Cyn tynnu Costau Eithriadol, bydd Derbynydd yn ceisio cytundeb ysgrifenedig gan Dîm Taliadau Cynllun Affganistan yr Awdurdod neu berygl y bydd yr hawliad yn cael ei wrthod. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei farn resymol wrth asesu mesurau lliniaru ar gyfer hawliadau lle na fu hyn yn bosibl. **Gweler Atodiad F.**

Proses ar gyfer gwirio cymhwysedd ar gyfer Cyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol

18. Mae'r Awdurdod wedi datblygu rhestr wirio yn Atodiad H i gynorthwyo Derbynwyr i wirio a fydd eiddo yn gymwys ar gyfer y Cyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol ar y lefel rhent a gytunir gyda'r landlord cyn cyflwyno cynnig eiddo. Lle bo'r Derbynydd wedi cwblhau Rhan A o'r rhestr wirio yn gywir ac yn fodlon bod unrhyw ddiffyg rhwng yr LHA a'r rhent o fewn yr uchafswm yn Rhan A o'r gronfa hon, gall y Derbynwyr fod yn sicr y bydd y cyllid y gofynnir amdano yn cael ei ddarparu o'r gronfa.

19. Os yw'r Derbynydd yn anghyfarwydd â'r derminoleg neu'r cyfrifiadau sy'n ofynnol yn y rhestr wirio, rydym yn argymhell ceisio cyngor gan dîm tai neu ddigartrefedd yr ALI sy'n debygol o fod yn gyfarwydd â'r telerau a'r cyfrifiadau gofynnol. Os yw'r Derbynydd yn parhau i fod yn ansicr a yw'r eiddo'n gymwys ar gyfer y cyllid ychwanegol, gall anfon y rhestr wirio ymlaen at Dîm Taliadau Affganistan yr

Awdurdod i'w dilysu, er y dylai'r Derbynnnydd nodi y gallai hyn achosi oedi yn y broses ac felly fe'i cynghorir i geisio cymorth cydweithwyr tai lleol yn y lle cyntaf.

20. Nid oes angen cwblhau Rhan B o'r rhestr wirio ar yr adeg y mae'r Derbynnnydd yn gwneud cynnig eiddo. Ni fydd y Derbynnnydd yn gallu cwblhau Rhan B o'r rhestr wirio nes bod teulu wedi'u paru â'r eiddo ac mae'r hawl i fudd-daliadau'n hysbys, i helpu'r Derbynnnydd i gyfrifo faint o unrhyw ddiffyg yn y cap budd-daliadau y gellir ei hawlio. Bydd elfen costau tai diffyg yn y cap budd-daliadau yn cael ei gwmpasu'n llawn gan y cyllid am o leiaf y 12 mis cyntaf. Nid oes amodau ar faint yr eiddo ar gyfer yr elfen hon o'r gronfa.
21. Rhaid cyflwyno rhestr wirio wedi'i chwblhau ochr yn ochr ag unrhyw hawliadau am Gyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol. Bydd hyn yn cynorthwyo Tîm Taliadau Affganistan yr Awdurdod i ddilysu a phrosesu hawliadau. Bydd methu â darparu rhestr wirio wedi'i chwblhau yn oedi talu hawliadau o'r fath.
22. Dylai pob hawliad o dan y cyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol gael ei hawlio fel ôl-daliad a chael ei gefnogi â thystiolaeth o wariant.

Atodiad H – Rhestrau Wirio Ar Gyfer Hawliadau Costau Cymorth Tai Ychwanegol

1. Bwriad y ddogfen hon yw helpu awdurdodau lleol i ddeall sut y gellir defnyddio'r Gronfa Costau Cymorth Tai Ychwanegol i sicrhau eiddo sy'n addas ar gyfer teuluoedd ac unigolion o Affganistan drwy'r cynlluniau adsefydlu a'i chyflwyno fel tystiolaeth ochr yn ochr â chais am y Gronfa Costau Cymorth Tai Ychwanegol. Mae'r Gronfa Costau Cymorth Tai Ychwanegol yn darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod cynigion tai yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.
2. Rhaid cyflwyno rhestr wirio wedi'i chwblhau ochr yn ochr ag unrhyw gais am y Cyllid Costau Cymorth Tai Ychwanegol. Cyfeiriwch at **Atodiad G** am fanylion llawn y cyllid a'r broses ar gyfer gwneud hawliadau.
3. Mae'r Gronfa Costau Cymorth Tai Ychwanegol ar gael dim ond i aelwydydd sy'n cael eu hadsefydlu drwy'r Polisi Adeoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP), ac i'r rheini a gyrhaeddodd y DU cyn 31 Awst 2021 drwy'r gwacáu o Affganistan ac sydd (i) naill ai yn cael eu hadsefydlu drwy Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) neu sy'n (ii) wladolion Prydeinig yn cael cymorth adsefydlu (ACRS).
4. Mae enghreifftiau wedi'u gweithio ar gyfer gwahanol hawliadau y gellir eu gwneud a'r hyn y byddent yn gyfystyr ag ef yn ariannol o dudalen 4 ymlaen.

5. Gwybodaeth am y Telerau a Ddefnyddir

- Mae DWP yn defnyddio'r **Lwfans Tai Lleol (LHA)** i gyfrifo'r uchafswm y gall pobl sy'n rhentu gan landlord preifat ei hawlio tuag at eu costau tai. Mae'n seiliedig ar y lleoliad a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar yr aelwyd. Gellir dod o hyd i'r cyfraddau LHA wythnosol ar gyfer pob ardal yn voa.gov.uk a'r symiau misol a ddefnyddir gan DWP ar gyfer cyfrifiadau Credyd Cynhwysol yn www.gov.uk **Cyfraddau Lwfans Tai Lleol Credyd Cynhwysol: 2022 i 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)**
- Mae **diffyg LHA** yn codi pan fo'r rhent contractiol y mae'r landlord yn gofyn i'r tenant ei dalu yn uwch na'r swm y gellir ei hawlio drwy'r LHA am yr eiddo.
- **Elfen Costau Tai hawliad Credyd Cynhwysol (UC)** yw'r uchafswm y gellir ei dalu i'r hawlydd UC tuag at ei rent, sef naill ai swm y rhent contractiol neu swm y Lwfans Tai Lleol, p'un bynnag yw'r isaf.

Y **cap ar fudd-daliadau** yw'r uchafswm arian y gall hawliwr ei gael ar Gredyd Cynhwysol os yw o oedran gweithio a ddim yn gymwys i gael esemptiad. Mae gwybodaeth am esemptiadau o'r cap budd-daliadau ar gael yn www.gov.uk **Cap budd-daliadau: Pan nad effeithir arnoch - GOV.UK (www.gov.uk)**

Symiau'r Cap Budd-daliadau ar gyfer Teuluoedd/Pobl Sengl yn ôl Lleoliad				
Math o Aelwyd	Lleoliad	Symiau'r Cap Budd-daliadau		
		Yr Wythnos	Y Mis Calendr*	Y Flwyddyn
Parau gyda neu heb blant a rhieni unigol	Llundain	£442.31	£1916.67	£23,000
	Tu allan i Lundain	£384.62	£1666.67	£20,000
Pobl sengl heb gyfrifoldebau rhiant	Llundain	£296.35	£1284.17	£15,410
	Tu allan i Lundain	£257.69	£1116.67	£13,400

* Telir UC yn fisol, ac felly bydd cyfrifiadau DWP yn cyfeirio at swm y mis calendr.

Rhestr Wirio'r Gronfa Costau Cymorth Tai Ychwanegol	Ydy/Nac ydy
Cymhwysedd	
I fod yn gymwys ar gyfer y cyllid, mae'r aelwyd yn dod o fewn un o'r tri maen prawf isod.	
Mae'r aelwyd yn cael ei adsefydlu o dan y cynllun ARAP	
Mae'r aelwyd yn cael ei adsefydlu o dan y cynllun ACRS a chyrrhaeddodd o Affganistan cyn 31 Awst 2021 fel rhan o'r gwacáu	
Mae'r aelwyd yn cynnwys Gwladolion Prydeinig a gyrhaeddodd o Affganistan cyn 31 Awst 2021 fel rhan o'r gwacáu	
<i>Os na allwch ateb ydy i un o'r tri blwch uchod, ni allwch hawlio'r cyllid a dylech orffen y rhestr wirio yma.</i>	
Crynodeb o'r Arian sydd ar Gael	
<p>Mae tair rhan i'r gronfa. Gall ALLau wneud cais am un rhan neu fwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg costau tai oherwydd y bwch rhwng LHA a rhent ar gyfer eiddo mawr (3+ gwely) yn y sector rhentu preifat (PRS) (cwbhewch Ran A o'r rhestr wirio) • Diffyg costau tai ar gyfer teuluoedd sy'n dibynnu ar Gredyd Cynhwysol (UC) wedi'i gyfyngu gan y cap budd-daliadau (cwbhewch Ran B o'r rhestr wirio – nodwch: nid oes unrhyw feini prawf maint eiddo ar gyfer yr elfen hon o'r gronfa) • Costau eithriadol y tu allan i'r meini prawf uchod (gweler Rhan C am wybodaeth - rhaid i chi ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Dîm Taliadau'r Swyddfa Gartref cyn hawlio'r elfen hon o'r cyllid) 	
Rhan A: Cyllid i dalu am ddiffygion yr LHA	
Er mwyn gallu hawlio'r elfen hon o'r cyllid rhaid i chi allu ateb yn gadarnhaol i'r datganiadau dilynol.	
Mae gan yr eiddo 3 ystafell wely neu fwy	
Mae'r eiddo yn eiddo yn y sector rhentu preifat ac yn cael ei osod ar Denantiaeth Fyrddaliadol Sicr (AST)	
<p>Mae'r landlord wedi cytuno i osod yr eiddo am denantiaeth 12 mis o leiaf.</p> <p><i>Sylwer – mae tenantiaethau 2 neu 3 blynedd yn cael eu ffafrio ond caniateir tenantiaeth 12 mis os mai dyma'r unig opsiwn sydd ar gael.</i></p> <p><i>Sylwer – nid yw'r gofyniad am gyfnod penodol yn berthnasol yn yr Alban lle dylai tenantiaethau a sicheir gan ddefnyddio'r cyllid hwn fod yn denantiaethau preswyl preifat parhaus, yn unol â deddfwriaeth tenantiaeth yr Alban.</i></p>	

Mae bwlch rhwng y rhent y mae'r landlord yn gofyn amdano a chyfradd y Lwfans Tai Lleol.	
Os na allwch ateb <u>yn gadarnhaol</u> i bob un o'r datganiadau uchod*, ni allwch hawlio'r elfen hon (Rhan A) o'r cyllid. Os ydych chi'n gallu ateb <u>ydych chi'n</u> datganiadau uchod, cwblhewch yr adran nesaf i wirio bod y swm yr hoffech ei hawlio o fewn yr uchafswm. *Sylwer – nid oes angen i hawliadau o'r Alban fodloni'r gofyniad cyfnod penodol.	
I gyfrifo swm y cyllid yr hoffech ei hawlio o'r Rhan A hon, llenwch yr adran isod	
(A) Beth yw'r Lwfans Tai Lleol misol ar gyfer yr eiddo?	£
(B) Beth yw'r rhent misol ar gyfer yr eiddo?	£
(C) Beth yw'r diffyg misol rhwng y rhent a chyfradd yr LHA? [B – A = C]	£
(D) Beth yw'r diffyg blynyddol? [C x 12 = D]	£
(E) Beth yw'r diffyg dros 3 blynedd (<i>uchafswm hyd y cyllid</i>)? [D x 3 = E]	£
Yr uchafswm cyllid sydd ar gael ar gyfer y Rhan A hon dros 3 blynedd yw £6,000 y tu mewn i Lundain a £4,500 y tu allan i Lundain. Os yw'r swm yr ydych wedi'i nodi yn (E) uchod yn fwy na'r uchafswm perthnasol bydd angen i chi geisio negodi rhent is neu ystyried a allwch chi fforddio gwneud iawn am y diffyg o gyllid arall gan yr Awdurdod Lleol. Gall ALLau ddefnyddio cyllid o'r tariff cyffredinol yn ogystal â'r cyllid hwn i helpu i sicrhau tai.	
Mae ALLau yn hawlio taliadau ychwanegol i'r landlord <u>naill ai</u> fel taliad ymlaen llaw <u>neu</u> fel ychwanegiad wythnosol, <u>ond nid y ddau</u> . A ydych yn dymuno hawlio am	
(F) Taliad ymlaen llaw yn gyfnewid am i'r landlord gytuno i ostwng y rhent contractiol i, neu'n agosach i, lefel yr LHA (cyfeirir ato weithiau fel cymhelliant)	
(G) Trwy gytundeb i dalu ychwanegiad wythnosol i'r landlord trwy gydol y denantiaeth <i>Gellir hawlio cyllid ar gyfer ychwanegiadau wythnosol nes bod yr aelwyd yn sicrhau cyflogaeth gyda chyflog digonol i ddileu hawl i Gredyd Cynhwysol. Mae cyllid ar gyfer ychwanegiadau wythnosol am uchafswm o 12 mis ac eithrio lle gall yr ALI ddangos rhwystr(au) i'r aelwyd yn cael cyflogaeth.</i>	
Taliadau ymlaen llaw: Os ateboch <u>ydych chi'n</u> (F) uchod, cwblhewch yr adran nesaf i wirio bod y taliad ymlaen llaw yr ydych am ei wneud yn cydymffurfio â'r uchafswm ar gyfer taliadau ymlaen llaw	
(H) Beth yw swm y taliad ymlaen llaw yr ydych wedi cytuno arno gyda'r landlord ac yn dymuno hawlio o'r cais hwn i'r gronfa?	£
Am pa hyd tenantiaeth ydych chi wedi cytuno arno gyda'r landlord yn gyfnewid am y taliad ymlaen llaw?	___ mis
(I) Is this the first up-front payment you have made in respect of this household?	

(J) Os ydych wedi ateb <u>ydw</u> i (I) uchod, a yw'r swm hwn o fewn yr uchafswm sydd ar gael ar gyfer taliad ymlaen llaw cychwynnol o £4,000 y tu mewn i Lundain, £3,000 y tu allan i Lundain?	
Os ydych wedi ateb <u>ydy</u> i (J) uchod, mae'r taliad yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyllido, ac nid oes angen i chi gwblhau unrhyw beth arall yn yr adran hon.	
(K) Os ydych wedi ateb <u>nac ydy</u> i (I) uchod (h.y. rydych yn gwneud cais am daliad pellach ym mlynnyddoedd 2 neu 3), beth yw cyfanswm y taliadau ymlaen llaw rydych eisoes wedi'u gwneud gan ddefnyddio'r cyllid hwn mewn perthynas â'r aelwyd hon?	£
(L) A yw cyfanswm y taliadau a wnaed eisoes a'r taliadau y gwneir cais amdanynt ar hyn o bryd [H + K] o fewn yr uchafswm cyllid sydd ar gael ar gyfer y Rhan A hon dros 3 blynedd h.y. £6,000 y tu mewn i Lundain a £4,500 y tu allan i Lundain?	
Os ydych wedi ateb <u>ydy</u> i (L) uchod, mae'r taliad yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyllido, ac nid oes angen i chi gwblhau unrhyw beth arall yn yr adran hon. Os ydych wedi ateb <u>nac ydy</u> i (L) uchod a chyfanswm y taliadau a wnaed eisoes, a bod y taliadau y gwneir cais amdanynt ar hyn o bryd [H + K] yn fwy na'r uchafswm cyllid sydd ar gael ar gyfer y Rhan A hon dros 3 blynedd bydd angen i chi geisio negodi rhent is neu ystyried a allwch chi fforddio gwneud iawn am y diffyg o gyllid Awdurdod Lleol arall. Gall ALLau ddefnyddio cyllid o'r tariff cyffredinol yn ogystal â'r cyllid hwn i helpu i sicrhau tai.	
Taliadau wythnosol: Os ydych wedi ateb <u>ydy</u> i (G) uchod, cwblhewch yr adran nesaf i wirio bod y taliadau wythnosol yr ydych yn dymuno eu gwneud yn cydymffurfio â gofynion y gronfa.	
(M) A ydych yn gwneud cais am ychwanegiadau wythnosol sy'n cwmpasu 12 mis cyntaf neu lai o'r denantiaeth?	
(N) A yw'r aelwyd wedi cael hawl i Gredyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod rydych yn gwneud cais amdano?	
Os ydych wedi ateb <u>ydy</u> i (M) <u>ac</u> (N) uchod, mae'r hawliad yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ariannu, ac nid oes angen i chi gwblhau unrhyw beth arall yn yr adran hon.	
Os ydych wedi ateb <u>nac ydy</u> i (M) uchod, ac yn dymuno hawlio cyllid y tu hwnt i'r 12 mis cychwynnol, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos rhwystr(au) i'r aelwyd yn cael cyflogaeth (e.e. datganiad gan anogwr gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn manylu ar y rhwystrau penodol.	
Rhan B: Cyllid i dalu am elfen costau tai am ddiffyg yn y cap budd-daliadau	
Mae'r adran hon i'w defnyddio unwaith y bydd teulu wedi'u paru â'r eiddo a bod eu hawl i fudd-daliadau'n hysbys, i'ch helpu i gyfrifo faint o unrhyw ddiffyg yn y cap budd-daliadau y gellir ei hawlio. Bydd elfen costau tai am ddiffyg yn y cap budd-daliadau'n cael ei	

gwmpasu'n llawn gan y cyllid am o leiaf y 12 mis cyntaf. Nid oes amodau ar faint yr eiddo.	
Er mwyn gallu hawlio'r elfen hon o'r cyllid rhaid i chi allu ateb <u>yn gadarnhaol</u> i'r cwestiwn dilynol.	
Mae'r aelwyd wedi'i chapio am fudd-daliadau neu wedi'i chapio am fudd-daliadau am y cyfnod y mae'r cyllid yn cael ei hawlio ar ei gyfer	
Os yw'r aelwyd wedi'i chapio am fudd-daliadau, gallwch hawlio'r elfen hon (Rhan B) o'r cyllid. Cwblhewch yr adran nesaf i wirio'r swm y gellir ei hawlio	
(O) Faint yw didyniad cap budd-daliadau'r aelwyd? Gallwch ddod o hyd i hwn ar asesiad Credyd Cynhwysol yr aelwyd. Rhoddir enghreifftiau isod.	£
(P) Faint yw'r elfen costau tai yn asesiad Credyd Cynhwysol yr aelwyd? Gallwch ddod o hyd i hwn ar asesiad Credyd Cynhwysol y cartref. Hwn fydd yr isaf o'r Lwfans Tai Lleol neu'r rhent contractiol ar gyfer yr eiddo.	£
Swm y cyllid y gallwch ei hawlio ar gyfer y Rhan B hon yw'r isaf o (O) a (P)	
(Q) A ydych yn hawlio am gyllid ar gyfer 12 mis cyntaf neu lai'r denantiaeth?	
Os ydych wedi ateb <u>ydw</u> i (Q) uchod, mae'r taliad yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyllido, ac nid oes angen i chi gwblhau unrhyw beth arall yn yr adran hon.	
Os ydych wedi ateb <u>nae ydw</u> i (Q) uchod, ac yn dymuno hawlio cyllid y tu hwnt i'r 12 mis cychwynnol, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos rhwystr(au) i'r aelwyd rhag cael gwaith neu esemptiad cap budd-daliadau (e.e. datganiad gan anogwr gwaith DWP yn manylu ar y rhwystrau penodol)	
Rhan C: Costau eithriadol	
Rhaid i hawliadau am y Rhan C hon o'r cyllid fod am eithriadau gwirioneddol yn hytrach na cheisiadau i ddarparu symiau ychwanegol ar gyfer amgylchiadau nad ydynt yn rhai eithriadol. Er enghraifft, gall ALI ofyn am gyllid ar gyfer y diffyg LHA ar eiddo llai sy'n diwallu anghenion person anabl; ond ni ddylent ofyn am gyllid ar gyfer eiddo oherwydd bod y bwlch diffyg LHA y tu allan i'r terfyn uchaf. Rhaid i dîm taliadau'r Swyddfa Gartref gymeradwyo ceisiadau am gostau eithriadol ymlaen llaw.	

Enghreifftiau o Hawliadau Cronfa Costau Tai

(sylwer: at ddibenion enghreifftiol yn unig ac ni ddylid dibynnu arno ar gyfer asesu costau tebygol)

Hawliadau Diffyg LHA

Ychwanegiad Ymlaen Llaw

Mae awdurdod lleol wedi nodi eiddo 3 ystafell wely sy'n addas ar gyfer teulu o 6 y tu allan i Lundain, ond mae'r rhent yn uwch na'r gyfradd LHA, ac nid yw'r landlord yn fodlon gosod yr eiddo ar lefel LHA. Y rhent misol yw £800ymc a'r LHA yw £680, gan adael diffyg o £120ymc. Mae'r landlord yn fodlon cynnig tenantiaeth dwy flynedd gan gydnabod yr angen i ddarparu cartref sefydlog.

Mae'r ALI yn cynnig darparu taliad atodol i'r landlord yn gyfnewid am denantiaeth dwy flynedd ar lefel LHA.

- Gwahaniaeth rhwng rhent eiddo a'r LHA = £120 ymc.
- Ar gyfer tenantiaeth dwy flynedd mae'r ALI yn cynnig taliad untro o $24 \times £120 = £2880$.

Ar ôl 2 flynedd mae'r landlord yn cynnig codi rhent i £810ymc, sef y rhent marchnad y gellir ei gyflawni ar gyfer yr eiddo hwn. Mae'r teulu wedi setlo ac mewn cyflogaeth ond ar incwm isel ac yn hawlio Credyd Cynhwysol. Asesiad yr ALI yw na allant fforddio rhent uwch na £680ymc ac mae'n cynnig taliad i'r landlord i ymestyn y denantiaeth am flwyddyn arall tra bod y teulu'n ceisio cynyddu eu hincwm neu'n chwilio am dŷ arall.

- Gwahaniaeth rhwng rhent eiddo a'r LHA = £130ymc
- Ar gyfer tenantiaeth un flwyddyn y diffyg yw $12 \times £130 = £1560$

Y cyfanswm a hawlir mewn cyllid atodol dros y 3 blynedd yw £4440 [$£2,880 + £1,560$]. Mae o fewn yr uchafswm sydd ar gael dros y 3 blynedd ar gyfer eiddo y tu allan i Lundain ac felly gellir ei dalu'n llawn gan y gronfa.

Ychwanegiadau Wythnosol

Yn y senario uchod - mae'r ALI yn cytuno â'r landlord y caiff yr eiddo ei osod ar y rhent contractiol ac mae'n ymrwymo i dalu'r diffyg rhent rhwng yr LHA a'r swm contractiol nes bod y teulu wedi sicrhau cyflogaeth gyda chyflog digonol i ddileu eu hawl i UC. Wrth sicrhau'r eiddo, mae'r ALI wedi bodloni ei hun bod y rhent ar lefel sy'n fforddiadwy i deuluoedd sy'n gweithio yn yr ardal nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol i gynorthwyo gyda chostau tai a chostau eraill. Mae'r ALI yn cytuno i dalu ychwanegiad wythnosol i'r landlord er mwyn sicrhau rhent fforddiadwy.

Hawliadau Diffyg Cap Budd-daliadau

Mae'r enghreifftiau isod yn amlinellu gwahanol senarios lle mae'r cap budd-daliadau wedi'i weithredu:

Enghraifft 1 Mae Cap Budd-daliadau yn golygu nad yw lwfans tai wedi'i gynnwys yn llawn		
Cyf y teulu	2 Oedolyn (dros 25) - 4 Plentyn 2, 6, 9, 13 oed	
Ystafelloedd gwely		4

Lleoliad	Y tu allan i Lundain	
Dyddiad gweithredu UC	30/05/2022	
Lwfans safonol	£525.72	
Cyfanswm Lwfans Plant	£779.16	Yn y senario hon mae'r lwfans plant yn daladwy ar gyfer 3 o'r 4 plentyn gan fod y plentyn ifancaf wedi'i eni ar ôl 6 Ebrill 2017.
Cyfanswm Budd-dal Plant	£282.32	Cyfartaledd misol fel Budd-dal Plant yn cael ei dalu'n wythnosol
Costau tai	£875.00	Bydd hwn yn swm LHA, neu rywmedigaeth rhent lle mae'r rhent yn is na'r LHA
Cyfanswm hawl	£2,462.20	Cyfrifiad DWP o hawl pe na byddai cap yn cael ei weithredu
Cyfanswm a dderbynir ar hyn o bryd	£1,666.67	Swm yn cael ei dalu
Diffyg	£795.53	

- Mae'r Credyd Cynhwysol a delir yn is na chyfanswm yr hawl, ac mae ar lefel y cap budd-daliadau ar gyfer y tu allan i Lundain sy'n cadarnhau bod y cap wedi'i weithredu
- Y swm cymwys yw p'un bynnag sydd isaf o'r didyniad cap neu gostau tai, sef £795.53
- Cyllid o £795.53 ymc ar gael am hyd at 12 mis, hyd nes y bydd y teulu'n cael eu hesemptio o'r cap; neu am gyfnod hwy trwy eithriad

Enghraifft 2: Cap budd-daliadau wedi'i weithredu, ond angen eglurhad pellach ar symiau

Cyf y teulu	2 Oedolyn (dros 25) - 5 Plentyn 1, 3, 6, 9, 13 oed	
Ystafelloedd gwely	4	
Lleoliad	Y tu allan i Lundain	
Dyddiad gweithredu UC	30/5/2022	
Lwfans safonol	£525.72	
Cyfanswm Lwfans Plant	£779.16	Yn y senario hon mae'r lwfans plant yn daladwy ar gyfer 3 o'r 5 plentyn gan fod y ddau blentyn ifancaf wedi'u geni ar ôl 6 Ebrill 2017.
Cyfanswm Budd-dal Plant	£344.93	
Costau tai	£875.00	
Cyfanswm hawl	£2,524.81	Hawl os na weithredir cap
Cyfanswm a dderbynir ar hyn o bryd	£715.00	Swm yn cael ei dalu
Diffyg	£1,809.81	

- Mae'r UC sy'n cael ei dalu yn is na swm y cap budd-daliadau, sy'n dangos bod didyniadau ychwanegol yn cael eu gwneud e.e. am ad-dalu blaenswm neu fenthyciad UC

- Bydd angen i'r ALI gael eglurhad ar y rhesymau dros ddiwyddu, a dim ond fel y maent yn berthnasol i'r elfen lwfans tai y gall hawlio am y gostyngiadau cap budd-daliadau UC
- Pe byddai'r teulu'n cael cap ar fudd-daliadau, y diffyg oherwydd y cap fyddai - £858.14. Hynny yw £2,524.81 ymc (cyfanswm hawl), llai £1666.67 ymc (cap budd-daliadau y tu allan i Lundain)
- Mae £858.14 yn is na'r lwfans tai LHA o £875.00 ac felly £858.14 ymc yw'r uchafswm sy'n gymwys ar gyfer cyllid

Enghraifft 3: Mae diffyg Cap Budd-daliadau yn fwy na swm costau tai		
Cyf y teulu	2 Oedolyn (dros 25) - 6 Plentyn 6, 7, 9, 11, 13, 15 oed	
Ystafelloedd gwely	4	
Lleoliad	Outside London	
Dyddiad gweithredu UC	30/05/22	
Lwfans safonol	£525.72	
Cyfanswm Lwfans Plant	£1,512.90	Yn y senario hon mae'r lwfans plant yn daladwy ar gyfer yr holl blant gan eu bod i gyd wedi'u geni cyn 6 Ebrill 2017
Cyfanswm Budd-dal Plant	£407.55	
Costau tai	£1296.44	Swm LHA, neu rwymedigaeth rhent pan fo'r rhent yn is na'r LHA
Cyfanswm hawl	£3,742.61	Cyfrifiad DWP o hawl pe na byddai cap yn cael ei weithredu
Cyfanswm a dderbynir ar hyn o bryd	£1,666.67	Swm yn cael ei dalu
Diffyg	£2,075.94	

- Mae'r UC a delir yn is na chyfanswm yr hawl, ac mae ar lefel y cap budd-daliadau ar gyfer y tu allan i Lundain sy'n cadarnhau bod y cap wedi'i weithredu
- Y swm cymwys yw p'un bynnag sydd isaf o'r didyniad cap neu gostau tai, sef £1296.44
- Cyllid o £1296.44 ymc ar gael am hyd at 12 mis, hyd nes y bydd y teulu'n cael eu hesemptio o'r cap; neu am gyfnod hwy trwy eithriad

Atodiad I - Cofnod O Newidiadau I'r Cyfarwyddyd Cyllido Hwn (I'r Fersiwn Flaenorol A Gyhoeddwyd)

Rhif tudalen/paragraff	Manylion y newidiadau
Tudalen 6, para 1.4	Ehangu'r diffiniad o Fuddiolwr i "(i) y rhai a adsefydlir o dan Gynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) a'u dibynyddion uniongyrchol (gan gynnwys aelodau teulu Gwladolion Prydeinig) o dan Lwybr 1 ; a (ii) y rhai sydd wedi'u hadleoli o dan gynllun Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) a'u dibynyddion uniongyrchol; a (iii) Gwladolion Prydeinig cymwys, (iv) yn ogystal â'r ACRS, mae'r cynllun hwn wedi'i ehangu i gynnwys y rhai sydd wedi'u cydnabod yn Ffoaduriaid gan UNHCR ac wedi'u hadsefydlu i'r DU o dan Lwybr 2 ACRS, a (v) y rhai sydd wedi'u hadleoli o dan Lwybr 3 ACRS."
Tudalen 8, para 1.20	Dileu geiriad amherthnasol
Tudalen 9, para 1.32	Mewnosod y diffiniad o "Ffoadur"
Tudalen 11, para 3.3	Mewnosod is-baragraff newydd i adlewyrchu cynnwys Llwybr 2 ACRS drwy atgyfeiriadau UNHCR. Is-baragraffau dilynol wedi'u hailrifo.
Tudalen 13, paragraffau 5.11 i 5.20	Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu gwybodaeth UNHCR a ddarparwyd fel rhan o'r broses atgyfeirio ar gyfer Llwybr 2 ACRS.
Tudalen 15, para 6.16	Ehangu'r paragraff i gynnwys "gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau tegwch o gofio mai cyfiawnhad y polisi oedd y gwacáu torfol, er ein bod yn cadw hyn dan adolygiad."
Tudalen 16, para 6.20	Wedi'i adolygu i adlewyrchu'r newid yn y broses ar gyfer gwirio cymhwysedd.

Tudalen 22-23 Atodlen 1 paragraffau 1.5 i 1.6	Mewnosod paragraffau newydd ac ail-rifo dilynol
Tudalen 24 Atodlen 1 para 1.15	Mewnosod paragraff newydd
Tudalen 24 Atodlen 1 paragraffau 1.20.1 i 1.20.2	Is-baragraffau wedi'u rhifo'n anghywir wedi'u cywiro
Tudalen 25 Atodlen 1 para 1.25	Paragraff wedi'i ailysgrifennu er eglurder
Tudalen 25 Atodlen 1 paragraffau 1.26.1 i 1.26.7	Paragraffau wedi'u hail-rifo
Tudalen 25 Atodlen 1 para 1.26.4	Is-baragraff wedi'i ailysgrifennu er eglurder
Tudalen 26 Atodlen 1 para 1.33	Paragraff wedi'i ailysgrifennu er eglurder
Tudalen 32 Atodlen 1 para 4.1	Brawddeg agoriadol wedi'i hailysgrifennu er eglurder
Tudalen 33 Atodlen 1 para 4.12	Paragraff wedi'i ailysgrifennu er eglurder
Tudalen 34 Atodlen 1 para 5.3	Ychwanegu "Noddwyr Cymunedol" i sefydliadau sy'n gymwys i hawlio cyllid
Tudalen 34 Atodlen 1 paragraffau 5.6.2 i 5.6.3	Is-baragraffau wedi'u hailysgrifennu
Tudalen 34 Atodlen 1 para 5.7	Paragraff wedi'i ailysgrifennu er eglurder
Tudalen 35 Atodlen 1 paragraffau 5.8 i 5.9	Rhifo diwygiedig a thestun diwygiedig er eglurder
Tudalen 36 Atodlen 1 para 6.2	Paragraff wedi'i ail-eirio
Tudalen 36 Atodlen 1 para 6.3	Mewnosodwyd paragraff newydd.
Atodiad A	Rhestr o ffurflenni hawlio taliadau wedi'i diweddaru

Atodiad B	Atodiad B Newydd - CATEGORïAU CYFLWYNO ADSEFYDLU UNHCR. Ailenwyd yr holl Atodiadau dilynol i adlewyrchu cynnwys Atodiad B newydd.
Atodiad C	Cynnwys is-baragraffau newydd 5.2 a 5.3
Atodiad G	Adolygu Atodiad G, i ddarparu canllawiau pellach.
Atodiad H	Cynnwys Rhestr Wirio ar gyfer Costau Cymorth Tai Ychwanegol yngylch hawliadau am Gyllid
Atodiad I	Atodiad H gynt